CBAC Lefel 3 Tystysgrif | Diploma Sylfaen | Diploma | Diploma Estynedig mewn

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# Manyleb

Fersiwn 2b - 28 Medi 2023



# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Tystysgrif | Diploma Sylfaen | Diploma | Diploma Estynedig

## Manyleb

## I'w dyfarnu o 2024 ymlaen

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| – | Disodlwyd y fersiwn drafft yn dilyn ychwanegu rhifau QiW, newid i fanylion asesu’r Diploma Sylfaen, a darpariaeth Uned 7 yn y tabl strwythur. | 4, 8 |
| 2 | Amodau di-arholiad wedi’u diweddaru drwy’r fanyleb.<br>Tabl AA, Uned 8 wedi’i chywiro.<br>Rheolyddion Uned 5 wedi’u diweddaru.<br>Tystiolaeth Uned 8 wedi’i diweddaru. | 9-30, 70-84<br>13<br>75<br>77 |
| | Mae’r pwyntiau bwled o dan 7.2, system resbiradol, sy'n ymwneud â swyddogaethau'r system gardiofasgwlar wedi'u dileu. | 52 |
| 2b | Mae’r term ‘sydd mewn perygl’ wedi’i ddisodli gan ‘sy’n wynebu risg’ a ‘sicrhau’ wedi’i ddisodli gan ‘gyflawni’ er mwyn eglurder drwy’r fanyleb, gan gynnwys teitlau Uned 5 ac Uned 8. | 8-13<br>36 -40, 56, 68, 76-81 |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar y cymwysterau | 4 |
| 1. Cyflwyniad | 5 |
| Ynglŷn â'r cymwysterau | 5 |
| Nodau ac amcanion y cymwysterau | 7 |
| Strwythur | 8 |
| 2. Crynodeb o'r asesu | 10 |
| Amcanion asesu | 13 |
| 3 Unedau | 14 |
| Fformat yr unedau | 14 |
| Uned 1 | 15 |
| Uned 2 | 22 |
| Uned 3 | 25 |
| Uned 4 | 30 |
| Uned 5 | 36 |
| Uned 6 | 42 |
| Uned 7 | 49 |
| Uned 8 | 56 |
| Uned 9 | 61 |
| 4 Gofynion Canolfannau | 65 |
| Cymeradwyo Canolfannau a Chymwysterau | 65 |
| Staff canolfannau | 65 |
| 5 Cyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd y cymwysterau | 66 |

# Cipolwg ar y cymwysterau

| | |
|---|---|
| Maes pwnc | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Rhif CBAC | 4973 |
| Rhif QiW | Tystysgrif: C00/3725/4<br>Diploma Sylfaen: C00/4757/5<br>Diploma: C00/1253/2<br>Diploma Estynedig: C00/4711/9 |
| Grŵp oedran cymeradwy | 16+ |
| Asesu | **Tystysgrif:**<br>Mewnol: Dau asesiad di-arholiad<br>Allanol: Un arholiad allanol<br>**Diploma Sylfaen:**<br>Mewnol: o leiaf tri asesiad di-arholiad<br>Allanol: un arholiad allanol<br>**Diploma:**<br>Mewnol: pump asesiad di-arholiad<br>Allanol: un arholiad allanol<br>**Diploma Estynedig:**<br>Mewnol: saith asesiad di-arholiad<br>Allanol: dau arholiad allanol |
| Cymeradwyaethau | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| Dogfennau cysylltiedig | Deunyddiau Asesu Enghreifftiol<br>Canllawiau Addysgu<br>Llawlyfr Gweinyddu Canolfannau<br>Canllaw arfer da i leoliadau gwaith |
| Ymrestru ac ardystio | Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm<br>www.dysguiechydagofal.cymru |

# 1. Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r cymwysterau

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau?** | Bydd y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau wedi'u hanelu at ddysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r cymwysterau yn cynnig llwybr dilyniant addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau Lefel 2 ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, yn cynnwys:<br>• Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau<br>• TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant<br>• Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu<br>• Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.<br><br>Maen nhw hefyd yn addas ar gyfer dysgwyr nad ydyn nhw wedi astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn flaenorol ond sydd â'r gallu i astudio ar Lefel 3. |
| **Beth mae'r cymwysterau yn ei gynnwys?** | Mae'r cymwysterau yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae gofyn i ddysgwr eu cyflawni yn rhan o'r cymwysterau hyn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Argymhellir yn gryf bod dysgwr sy'n ymgymryd â'r naill gymhwyster neu'r llall wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.<br><br>Yn ôl gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol gael y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a chymhwyster Ymarfer perthnasol i weithio mewn rolau swyddi **penodol**. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Iechyd a Gofal, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru: Hafan \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Sylwer: mae angen i ddysgwyr fod mewn cyflogaeth os ydyn nhw'n ymgymryd â chymwysterau Ymarfer ar lefel 2 a 3.<br><br>Er mwyn cwblhau'r **cymhwyster Diploma a Diploma Estynedig**, mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgysylltu â'r sector am o leiaf **100** awr, y mae'n rhaid treulio **60** awr ohonynt yn ymgymryd â lleoliad gwaith.<br><br>Anogir canolfannau i sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod dysgwyr yn cael profiad o ddau leoliad o leiaf yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r sector. |

| | |
|---|---|
| **Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu?** | Mae'r fanyleb hon yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau. Gall dysgwyr hefyd fynd ymlaen i ddilyn cymwysterau eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, er enghraifft cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.<br><br>Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn. |
| **Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymwysterau?** | Datblygwyd y cymhwyster hwn gan y Consortiwm ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Yr oedd y rhain yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru y GIG, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd. |

# Nodau ac amcanion y cymwysterau

Mae’r cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol
- deall a myfyrio ar sut y gellir nodi anghenion unigryw unigolion ac ymateb iddynt
- deall y modd y gellir hybu a chefnogi ymarfer a llesiant person-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso damcaniaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol a myfyrio ar y modd y gallent ddylanwadu ar ymarfer
- ymwybodol o newidiadau polisi yn y sector a'r modd y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

# Strwythur

Mae'r cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn rhai unedol:

- i gyflawni'r Dystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, rhaid i ddysgwyr gwblhau **3** uned orfodol
- i gyflawni'r cymhwyster Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, rhaid i ddysgwyr gwblhau **3** uned orfodol ac **o leiaf un** uned ddewisol (rhaid cwblhau o leiaf 180 ODA ychwanegol yn rhan o'r uned (unedau) opsiynol)
- i gyflawni'r cymhwyster Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, rhaid i ddysgwyr gwblhau **6** uned orfodol
- i gyflawni'r Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, rhaid i ddysgwyr gwblhau **9** uned orfodol.

| Teitl yr uned | ODA | Asesu | Tyst. | Dip S | Dip | Dip Est |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 90 | Mewnol | M | M | M | M |
| 2. Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | 180 | Allanol | M | M | M | M |
| 3. Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 90 | Mewnol | M | M | M | M |
| 4. Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | 90 | Mewnol | | O | M | M |
| 5. Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | 180 | Mewnol | | O | M | M |
| 6. Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | 90 | Mewnol | | O | M | M |
| 7. Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | 120 | Allanol | | | | M |
| 8. Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | 120 | Mewnol | | O | | M |
| 9. Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | 120 | Mewnol | | | | M |

# Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwyliwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr.

Caiff Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r dull cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn mewn dull cyfannol ac, felly, dim ond argymhelliad yw'r oriau fesul uned.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) ac amser ychwanegol a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gallai'r amser ychwanegol hwn gynnwys:

- asesiadau a thasgau ychwanegol a osodir gan y tiwtor (gwaith cartref)
- defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein
- cwblhau gwaith ymchwil annibynnol gan gynnwys darllen cyhoeddiadau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r sector.

Mae'r ODA a'r CAC a neilltuwyd ar gyfer y cymwysterau hyn fel a ganlyn:

| Cymwysterau | ODA | CAC |
|---|---|---|
| Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 360 | 540 |
| Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | Lleiafswm 540* | 810 |
| Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 720 | 1080 |
| Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 1080 | 1620 |

* Gall yr oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y Diploma Sylfaen fod yn fwy na 540, mae hyn yn dibynnu ar y cyfuniad o unedau sy'n cael ei gyflwyno.

# 2. Crynodeb o'r asesu

**Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.**
**Asesiad Di-arholiad**
**20 awr**
**100 marc**

Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud ag astudiaeth achos a ddewiswyd. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion gofal ac ymarfer diogel a'r modd y mae hyn yn cael ei gymhwyso at ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd dau Becyn Asesu yn cael eu rhyddhau ar wefan ddiogel CBAC i'r canolfannau ar ddydd Llun cyntaf mis Medi bob blwyddyn. Ym mhob Pecyn Asesu bydd astudiaeth achos i'w defnyddio gan ymgeiswyr fel symbyliad ar gyfer cwblhau'r ddwy dasg. Rhaid i'r ymgeiswyr ddewis yr Astudiaeth Achos maen nhw am ei defnyddio.

Cyhoeddir y dasg ar www.dysguiechydagofal.cymru a bydd yn parhau yr un fath ar gyfer oes y fanyleb hon.

**Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes**
**Arholiad yn ôl amserlen allanol**
**1 awr 45 munud**
**100 marc**

Arholiad (i'w sefyll naill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys uned sy'n ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.
Mae pob cwestiwn yn orfodol.

**Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.**
**Asesiad Di-arholiad**
**20 awr**
**80 marc**

Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau wedi'u gosod gan CBAC. Yn yr asesiad gofynnir i ddysgwyr ddewis grŵp o unigolion i seilio'r tasgau arnynt.

Yn yr asesiad mae'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu tystiolaeth naill ai fel podlediad, cyflwyniad neu fideo, i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o hybu hawliau unigolion er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath dros gyfnod oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC.

| **Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>**15 awr**<br>**60 marc** |
|---|
| Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau wedi'u gosod gan CBAC lle mae gofyn i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol. Mae'r dasg yn seiliedig ar ddau ysgogiad a fydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Asesu a fydd ar gael i ganolfannau ar wefan ddiogel CBAC ar ddydd Llun cyntaf mis Medi bob blwyddyn.<br><br>Bydd y dasg ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb fel y'i cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Uned 5: Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>**15 awr**<br>**100 marc** |
| Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy dasg y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud ag ysgogiad a fydd wedi'i ddarparu. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.<br><br>Bydd Pecyn Asesu yn cael ei ryddhau i'r canolfannau ar wefan ddiogel CBAC ar ddydd Llun cyntaf mis Medi pob blwyddyn. Yn y Pecyn Asesu hwn bydd yr ysgogiad ar gyfer cwblhau'r tasgau.<br><br>Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Uned 6: Gweithio yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>**18 awr**<br>**120 marc** |
| Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau wedi'u gosod gan CBAC ac yn seiliedig ar gyfnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith y dysgwyr.<br><br>Bydd y dasg ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac mae wedi'i chyhoeddi yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Uned 7: Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**<br>**Arholiad yn ôl amserlen allanol**<br>**2 awr**<br>**100 marc** |
| Arholiad (i'w sefyll ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys yr unedau sy'n ymwneud ag anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pob cwestiwn yn orfodol. |

| **Uned 8 Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>**15 awr**<br>**60 marc** |
|---|
| Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy dasg y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud ag ysgogiad a fydd wedi'i ddarparu. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru.<br><br>Bydd Pecyn Asesu yn cael ei ryddhau i'r canolfannau ar wefan ddiogel CBAC ar ddydd Llun cyntaf mis Medi pob blwyddyn. Yn y Pecyn Asesu hwn bydd yr ysgogiad ar gyfer cwblhau'r tasgau.<br><br>Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Uned 9 Ymchwilio materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>**20 awr**<br>**82 marc** |
| Asesiad di-arholiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil eilaidd eu hunain i fater cyfoes o'u dewis a chyflwyno argymhellion ar gyfer cyflawni gwaith ymchwil pellach.<br><br>Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac fe'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |

# Amcanion asesu

Mae Amcanion Asesu (AA) yn cyfeirio at y sgiliau y mae angen i ddysgwyr eu dangos wrth ymateb i gwestiynau mewn asesiad allanol neu asesiad di-arholiad. Mae'r cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cynnwys tri amcan asesu.

Bydd yr asesiadau mewnol a'r asesiadau allanol yn targedu'r amcanion asesu hyn yn unol â'r pwysoli ar y dudalen nesaf.

| Uned | Math o Asesiad | Amser | Marciau crai | marc AA | | pwysoli AA | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Asesiad di-arholiad | **Amser** 20 awr | 100 | AA1 | 40 | AA1 | 40% |
| | | | | AA2 | 36 | AA2 | 36% |
| | | | | AA3 | 24 | AA3 | 26% |
| 2 | Arholiad Allanol | 1 awr 45 munud | 100 | AA1 | 30-34 | AA1 | 30-34% |
| | | | | AA2 | 33-37 | AA2 | 33-37% |
| | | | | AA3 | 31-35 | AA3 | 31-35% |
| 3 | Asesiad di-arholiad | 20 awr | 80 | AA1 | 24 | AA1 | 30% |
| | | | | AA2 | 16 | AA2 | 20% |
| | | | | AA3 | 40 | AA3 | 50% |
| 4 | Asesiad di-arholiad | 15 awr | 60 | AA1 | 20 | AA1 | 33% |
| | | | | AA2 | 22 | AA2 | 37% |
| | | | | AA3 | 18 | AA3 | 30% |
| 5 | Asesiad di-arholiad | 15 awr | 100 | AA1 | 33 | AA1 | 33 |
| | | | | AA2 | 33 | AA2 | 33 |
| | | | | AA3 | 34 | AA3 | 34 |
| 6 | Asesiad di-arholiad | 18 awr | 120 | AA1 | 36 | AA1 | 30% |
| | | | | AA2 | 44 | AA2 | 37% |
| | | | | AA3 | 40 | AA3 | 33% |
| 7 | Arholiad Allanol | 2 awr | 100 | AA1 | 33-37 | AA1 | 33-37% |
| | | | | AA2 | 33-37 | AA2 | 33-37% |
| | | | | AA3 | 29-33 | AA3 | 29-33% |
| 8 | Asesiad di-arholiad | 15 awr | 60 | AA1 | 20 | AA1 | 33% |
| | | | | AA2 | 22 | AA2 | 37% |
| | | | | AA3 | 18 | AA3 | 30% |
| 9 | Asesiad di-arholiad | 20 awr | 82 | AA1 | 12 | AA1 | 15% |
| | | | | AA2 | 24 | AA2 | 29% |
| | | | | AA3 | 46 | AA3 | 56% |

# 3. Unedau

## Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | Yn crynhoi cynnwys yr uned. |
| **Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):** | Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr.<br>Dyrannwyd yr ODA fesul uned er mwyn helpu i gyflwyno'r cymhwyster. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn mewn dull cyfannol ac, felly, dim ond argymhelliad yw'r oriau fesul uned. |
| **Meysydd cynnwys:** | Yn cynnwys y rhestr o destunau mae'r uned yn ymdrin â nhw. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn darparu crynodeb o gynnwys yr uned. Mae'n gosod cyd-destun yr uned ac yn nodi pwrpas yr hyn a ddysgir yn yr uned. |
| **Asesu:** | Yn crynhoi'r dull asesu ar gyfer yr uned. |
| **Datblygu Sgiliau:** | Yn nodi cyfleoedd i ddatblygu Sgiliau Cyfannol a Sgiliau Mewnblanedig yn y cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3). |

# Uned 1

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | **Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau** |
| **ODA:** | 90 |
| **Meysydd cynnwys:** | 1.1 Deall cyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.<br>1.2 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru a'r DU.<br>1.3 Materion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>1.4 Pwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a dulliau cyfathrebu effeithiol ag unigolion.<br>1.5 Sut i hybu gofal o safon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Argymhellir yn gryf bod athrawon yn addysgu meysydd testun 1.1 a 1.2 mewn modd cyfannol. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector. Byddant yn dysgu am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eu rolau. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin gwybodaeth am ddulliau a materion moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddant hefyd yn deall pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth, dulliau cyfathrebu effeithiol a hybu gofal o safon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad hwn sy'n cynnwys dwy dasg y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud ag astudiaeth achos a ddewiswyd. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion gofal ac ymarfer diogel a'r modd y mae hyn yn cael ei gymhwyso at ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Bydd Pecyn Asesu yn cael ei ryddhau ar wefan ddiogel CBAC i'r canolfannau ar ddydd Llun cyntaf mis Medi bob blwyddyn. Ym mhob Pecyn Asesu bydd astudiaeth achos i'w defnyddio gan ymgeiswyr fel ysgogiad ar gyfer cwblhau'r ddwy dasg. Rhaid i'r ymgeiswyr ddewis yr Astudiaeth Achos maen nhw am ei defnyddio.<br><br>Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |

| | |
|---|---|
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** drwy'r holl waith ysgrifenedig ac asesiadau<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth gynllunio eu hadroddiad<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ymchwilio i ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** mewn tystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer y tasgau<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Uned 1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 1.1 Deall cyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. | Dylai dysgwyr wybod a deall rolau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth ddarparu gofal a chefnogaeth o ansawdd i unigolion a gwasanaethau hanfodol sy'n hybu iechyd a llesiant.<br><br>Gan gynnwys:<br>• rolau mewn gofal rheng flaen<br>• rolau mewn swyddogaethau cefnogi<br>• gwerthoedd craidd ac egwyddorion gofal, pam mae'r rhain yn bwysig a sut maen nhw o fudd i'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall cyfrifoldebau proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r hyn sy'n wahanol rhwng y ddau.<br><br>Yn cynnwys:<br>• cydymffurfio â chodau ymddygiad/ymarfer, polisïau a chanllawiau ar gyfer gweithwyr gofal ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• sicrhau diogelwch a llesiant pobl eraill<br>• deall cyfrifoldeb gweithiwr proffesiynol cofrestredig<br>• gofynion rheoleiddiol – addasrwydd i ymarfer, a pham mae hyn yn bwysig mewn ymarfer proffesiynol<br>• pwysigrwydd cofrestru fel gweithiwr proffesiynol gyda chorff rheoleiddiol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o ran cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni'r gweithgaredd penodol y gofynnwyd iddynt ymgymryd ag ef. Dylent wybod a deall y gall methiant i wneud hynny arwain at ddisgyblu a/neu achos cyfreithiol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall am y modd y mae codau ymarfer/ymddygiad yn cefnogi ymarfer proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol<br>• Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cofrestredig<br>• Canllawiau nad ydynt yn rheoleiddiol, e.e. Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru.<br><br>Dylid annog dysgwyr i edrych ar godau ymarfer/ymddygiad.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae cyrff rheoleiddiol yn cefnogi aelodau drwy nodi'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• ymrestru<br>• ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ddilyn codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol<br>• cynnal ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer a gosod sancsiynau yn ôl yr angen<br>• meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, gwerthfawrogi gweithwyr gofal, sicrhau diogelwch y cyhoedd ac annog a chefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus<br>• chwythu'r chwiban/lleisio pryderon. |

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>1.2 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru a'r DU.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall effaith y canlynol:<br>• deddfwriaeth: yn cynnwys materion datganoledig, is-ddeddfwriaeth a rheoleiddio<br>• polisïau cenedlaethol<br>• codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019<br>• Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru (2014)<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid<br>• Deddf Plant 2004<br>• Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiynau a Phrotocolau cysylltiedig fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1990, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991.<br><br>Mae rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth a pholisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn: https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:<br>• sut mae deddfwriaeth yn cysylltu â fframweithiau cenedlaethol, canllawiau ac ymarfer, gweithredu datblygiadau polisi ac effaith hynny ar ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Nghymru ac yn y DU<br>• blaenoriaethau strategol ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon<br>• y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn deddfwriaeth ledled gwledydd gwahanol y DU.</td></tr>
<tr><td>1.3 Materion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall amrywiaeth o faterion a dulliau moesegol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Yn cynnwys:<br>• parchu cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis<br>• dyletswydd gofal<br>• dyletswydd gonestrwydd<br>• fframweithiau moesegol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac egwyddorion<br>• gwneud penderfyniadau er budd gorau y sawl sydd heb alluoedd<br>• rheoli cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth, e.e. y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) – pryd y gellir rhannu gwybodaeth, pam a gyda phwy<br>• pam y mae cyfrinachedd yn bwysig a sut mae hyn yn gysylltiedig â chyfraith gyffredin a fframwaith deddfwriaethol<br>• rheoli gwasanaethau a dyrannu adnoddau<br>• cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol.</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 1.4 Pwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a dulliau cyfathrebu effeithiol ag unigolion. | Dylai dysgwyr wybod am y dulliau a'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a dulliau cyfathrebu effeithiol a deall pwysigrwydd hyn.<br><br>Yn cynnwys:<br>**Perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth:**<br>• meithrin ymddiriedaeth<br>• sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â chydweithwyr a rheolwyr, wrth ddarparu gwybodaeth a gwneud cais am wybodaeth<br>• sefydlu perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr, a pharchu eu gwerthoedd a'u credoau<br>• darparu gofal person-ganolog i unigolion drwy sicrhau'r cyfleoedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen arnynt er mwyn rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn effeithiol, a gwneud penderfyniadau hyddysg amdanynt<br>• gwerthfawrogi unigolion a rhoi dewisiadau iddynt<br>• cyfathrebu'n effeithiol gan holi, aralleirio, myfyrio, sicrhau newid, grymuso unigolion a gall hyn hefyd gynnwys herio (lle bo angen gwneud hynny).<br><br>**Cyfathrebu effeithiol –**<br>• y ffordd i ymgysylltu unigolion mewn sgyrsiau – 'Sgyrsiau Yr Hyn sy'n Bwysig'<br>• mentrau fel 'Helo, fy enw i yw' a fabwysiadwyd gan y GIG<br>• dewis iaith: 'Mwy na geiriau' – y cynnig rhagweithiol, Cymraeg 2050<br>• cymhwyso sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol mewn modd ymarferol, siarad yn glir gan ddefnyddio brawddegau syml ac osgoi jargon<br>• deall gwahanol fathau o gyfathrebu: ystumiau, mynegiant y wyneb, dulliau cyfathrebu ysgrifenedig gan gynnwys delweddau, lluniau a symbolau, geiriol, di-eiriol, digidol, Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, Braille<br>• deall yr amgylchedd wrth gyfathrebu ag unigolion.<br><br>Mae'r strategaethau a'r mentrau a restrir uchod yn sensitif o ran amser a dylid eu disodli â strategaethau a mentrau mwy diweddar wrth iddyn nhw gael eu lansio. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 1.5 Sut i hybu gofal o safon y mae canlyniadau'n ganolog iddo. | Dylai dysgwyr wybod a deall bod ansawdd gofal yn golygu **helpu unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol** drwy ddarparu'r gofal a'r cymorth y mae eu hangen ar yr unigolyn, pryd a lle y mae eu hangen, mewn modd fforddiadwy, diogel ac effeithiol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y rôl sydd gan weithwyr gofal wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd y mae canlyniadau'n ganolog iddo.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Mae gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn sicrhau'r canlynol:**<br>• dull sy'n seiliedig ar gryfderau mewn perthynas â gofal a chymorth a chynhwysiant<br>• gofal a chymorth person-ganolog<br>• beth y gall unigolion ei wneud gan ddefnyddio eu sgiliau, eu cryfderau, eu galluoedd a'u rhwydwaith eu hunain<br>• bod lleisiau unigolion yn cael eu clywed, bod rhywun yn gwrando ac yn gweithredu arnynt wrth ddarparu gofal a chymorth; eu bod yn bartneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau<br>• grymuso unigolion gan gynnwys hunanymwybyddiaeth, hunanofal a gwasanaethau eiriolaeth<br>• darparu gwasanaethau di-dor ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion unigolion ac a ddarperir mor agos i'r cartref â phosibl<br>• bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, a'i bod yn ofynnol i bob unigolyn a sefydliad proffesiynol wneud popeth posibl i sicrhau bod llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael ei amddiffyn a'u bod yn cael eu diogelu rhag achosion o gam-drin, triniaeth amhriodol, esgeulustod neu niwed.<br><br>**Mae'r ffyrdd canlynol yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â heriau a manteision presennol:**<br>• **strategaethau ymgysylltu er mwyn cynnwys unigolion i wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain:** Cyfranogiad unigol a chyfranogiad gweithredol wrth ofalu amdanynt eu hunain e.e. defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol er mwyn hybu ymddygiad iach<br>• **defnyddio adnoddau personol, teuluol a chymunedol:** cefnogi atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• **newidiadau llywodraethu:** sut mae hyn yn arwain at newid mewn mentrau a blaenoriaethau, e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• **economeg iechyd a gofal cymdeithasol:** cyllid, staffio, lleihau rhestrau aros, integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol<br>• **technolegau newydd a dulliau digidol sy'n gwneud y canlynol:**<br>    ◦ darparu un cofnod a fydd yn galluogi darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau gofal a chymorth cydgysylltiedig<br>    ◦ cynnig ymyriadau cynnar er mwyn osgoi'r angen am wasanaethau gofal a chymorth mwy ffurfiol wedi'u rheoli'n fwy am gyfnod hwy<br>    ◦ sydd wedi'u personoli ac yn helpu unigolion i fod yn annibynnol am gyfnod hwy, gan eu cefnogi a'u cadw'n ddiogel drwy ofal a chymorth yn y cartref gan ddefnyddio systemau technoleg gynorthwyol sy'n monitro ac sy'n gallu ymateb yn ôl yr angen, e.e. Teleiechyd a Thelefeddygaeth<br>    ◦ yn helpu i ganfod canser yn llawer cynharach o brawf gwaed syml. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| | • **rôl economi gofal gymysg:** y sector statudol, y sector annibynnol a'r trydydd sector, hyblygrwydd a rhoi gwell dewis<br>• **triniaethau ychwanegol:** mae meddygfeydd meddygon teulu yn dod yn ganolfannau er mwyn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd a llesiant<br>• **gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar y cyd:** un man cyswllt i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt e.e. gofal yn y cartref, cyrsiau neu gefnogaeth i reoli cyflyrau tymor hir<br>• **blaenoriaethau tymhorol:** newidiadau tymhorol, e.e. achosion o ffliw, taliadau tanwydd gaeaf, mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a mwy o bwysau arnynt. |

# Uned 2

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | **Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes** |
| **ODA:** | 180 |
| **Meysydd cynnwys:** | 2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes.<br>2.2 Modelau sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes.<br>2.3 Dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn dod i wybod ac i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar draws y rhychwant oes a modelau sy'n ymwneud â'r ffactorau hyn. |
| **Asesu** | Arholiad (i'w sefyll naill ai ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys uned sy'n ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.<br>Mae pob cwestiwn yn orfodol. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** wrth baratoi ar gyfer asesiad<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth baratoi ar gyfer asesiad<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth gysylltu modelau a damcaniaethau mewn perthynas â thwf a datblygiad dynol<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes. | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes.<br><br>Yn cynnwys:<br>**Mae camau bywyd yn y rhychwant oes yn cael eu diffinio fel a ganlyn:**<br>• Babandod: 0-2 oed<br>• Plentyndod: 3-12 oed<br>• Llencyndod: 13-19 oed<br>• Oedolaeth: 20-64 oed<br>• Oedolaeth ddiweddarach: 65+ oed.<br><br>**Ffactorau allweddol:**<br>• **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:** digwyddiadau trawmatig y gall plant eu hwynebu wrth dyfu ond sy'n cael eu dwyn i gof drwy gydol eu hoes fel oedolyn. Gallant wella'r siawns y bydd unigolion yn datblygu clefydau ac yn mabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd<br>• **ymddygiad heriol:** anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), syndrom Tourette, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig<br>• **ffactorau economaidd;** statws economaidd, amgylchedd y cartref<br>• **profiadau addysgol**: cefnogaeth ac arweiniad drwy addysg, lefel addysg<br>• **dewisiadau ffordd o fyw:** defnydd o dechnoleg, ysmygu, camddefnyddio sylweddau, ymwneud â throsedd, dylanwadu ar eraill e.e. modelau rôl<br>• **digwyddiadau bywyd:** rhagweladwy ac anrhagweladwy; profiadau cadarnhaol a negyddol<br>• **iechyd meddwl:** afiechyd meddwl, anhwylderau bwyta, iselder, gorbryder<br>• **ffactorau corfforol:** gweithgaredd corfforol, iechyd corfforol, maeth a hydradu, cyflyrau sy'n gyffredin yng Nghymru, damweiniau, anableddau corfforol, cyflyrau tymor hir a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd<br>• **ffactorau cymdeithasol:** strwythur teuluol, diwylliant, crefydd, rhwydweithiau cymdeithasol a chefnogaeth.<br><br>**Effaith tymor hir ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes:**<br>• gorbryder<br>• ymlyniad<br>• ehangu profiadau<br>• iselder<br>• mwy abl a thalentog – rhagori ar gerrig milltir<br>• peidio â chyflawni'r cerrig milltir disgwyliedig<br>• stigma<br>• trawsnewid<br>• trawma. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| | **Mynd i'r afael ag effaith tymor hir ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes:**<br>• modelu, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a gweithgareddau sy'n gallu helpu unigolion i sicrhau gwell annibyniaeth, gwydnwch neu adsefydlu (dysgu cymdeithasol)<br>• sicrwydd, anogaeth, dilysiad a chysylltiadau ag ymlyniadau a datblygiadau, hunanhyder, hunanddibyniaeth, hunan-barch, hunangysyniad a meithrin gwydnwch, darparu cryfder a chapasiti er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain neu geisio cefnogaeth o adnoddau cymunedol a syniadau person-ganolog. |
| 2.2 Modelau sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes. | Dylai dysgwyr wybod a deall y cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â damcaniaethau sefydledig a meini prawf presennol a'r ffordd maen nhw'n gysylltiedig â'i gilydd.<br><br>Modelau a Damcaniaethau, yn cynnwys:<br>• **Damcaniaeth Ymddygiad:** Pavlov, Skinner, Watson<br>• **Damcaniaeth Fiolegol:** Gesell<br>• **Damcaniaeth Wybyddol a Damcaniaethau Datblygiadol eraill:** Aaron Beck, Piaget, Vygotsky, Erikson<br>• **Damcaniaeth Ecolegol:** Bronfenbrenner<br>• **Damcaniaethau Datblygu Dynol:** Damcaniaeth Ymlyniad Bowlby, Damcaniaeth Ymddieithrio Heneiddio Cumming a Henry, Natur/Magwraeth<br>• **Damcaniaeth Ddyneiddiol:** Maslow, Rogers<br>• **Damcaniaeth Seicogymdeithasol:** Erikson<br>• **Damcaniaeth Dysgu Cymdeithasol:** Bandura, Vygotsky. |
| 2.3 Dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch. | Dylai dysgwyr wybod a deall dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch.<br><br>**Dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch:**<br>• annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig a gweithgareddau hamdden yn y gymuned leol a chynyddu rhwydweithiau cymdeithasol e.e. celfyddydau cymunedol a gweithgareddau creadigol<br>• ymgysylltu ag unigolion er mwyn iddyn nhw fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant corfforol drwy wneud newidiadau ffordd o fyw<br>• hybu dull cadarnhaol, sy'n datrys problemau a safbwynt optimistaidd<br>• hybu amgylcheddau cadarnhaol sy'n flaengar ac yn hybu cryfderau ac amrywiaeth |

# Uned 3

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | **Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes** |
| **ODA:** | 90 |
| **Meysydd cynnwys:** | 3.1 Hawliau unigolion<br>3.2 Deall iechyd a llesiant<br>3.3 Rhwystrau i gyfranogiad<br>3.4 Hybu hawliau unigolion<br>3.5 Deddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau unigolion a'r rhwystrau i gyfranogiad y gallant eu hwynebu, sut mae'r rhain yn cael eu hybu a'u herio er mwyn gwella iechyd a llesiant. |
| **Asesu:** | Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad di-arholiad. Mae gofyn i chi ymchwilio a llunio tystiolaeth ar sut i hybu hawliau unigolion mewn un grŵp penodol ar bob cam o'r rhychwant oes. Gellir cyflwyno'r dystiolaeth naill ai fel podlediad, cyflwyniad neu fideo.<br><br>Gall dysgwyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y tasgau heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Bydd dysgwyr yn treulio cyfanswm o 20 awr yn cwblhau'r gwaith. Yn y dasg mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o hybu hawliau unigolion er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u llesiant.<br><br>Cyhoeddir y dasg ar www.dysguiechydagofal.cymru a bydd yn parhau yr un fath dros oes y fanyleb hon. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** wrth gyflwyno eu tystiolaeth<br>• **rhifedd:** dehongli data ar anghydraddoldebau iechyd a ffordd o fyw<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth gynllunio sut i gyflwyno eu tystiolaeth<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ddewis gwybodaeth briodol o'u gwaith ymchwil i'w chyflwyno fel tystiolaeth<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** wrth gyflwyno tystiolaeth naill ai fel podlediad, cyflwyniad neu fideo<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

<table>
<tr><th colspan="2">Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes.</th></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>3.1 Hawliau unigolion.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall hawliau unigolion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Yn cynnwys yr hawl i'r canlynol:<br><br>• cael llais, dewis a rheolaeth<br>• derbyn gohebiaeth yn eich dewis ddull neu iaith<br>• cael eich trin ag urddas a pharch fel unigolyn<br>• cael eich amddiffyn rhag perygl a niwed<br>• bod eich hawliau yn cael eu hystyried<br>• mynediad i wybodaeth sy'n berthnasol i'r unigolyn<br>• cydsyniad gwirfoddol a chydsyniad gwybodus<br>• gwybod beth yw eich hawliau.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o hawliau ac anghenion sylfaenol unigolion.<br><br>Yn cynnwys yr hawl i'r canlynol:<br><br>• safon byw ddigonol (gan gynnwys bwyd a thai)<br>• addysg<br>• y safonau<br>• rhyddid meddwl, crefydd a mynegiant.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut gellid bodloni anghenion cefnogi'r grŵp o unigolion sydd wedi'u dewis.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>• cefnogaeth ymarferol: bwyd, cynhesrwydd, lloches<br>• cefnogaeth ariannol: costau byw sylfaenol, tai, gwasanaethau, treuliau<br>• cefnogaeth emosiynol: teulu a ffrindiau</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 3.2 Deall iechyd a llesiant. | Dylai dysgwyr wybod a deall bod iechyd a llesiant yn gyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol llwyr ac nid absenoldeb afiechyd neu wendid yn unig.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Mae iechyd a llesiant yn cynnwys y canlynol:**<br>• hawliau a hawliadau<br>• iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol<br>• diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod (diogelu)<br>• addysg, hyfforddiant a hamdden<br>• cysylltiadau domestig, teuluol a phersonol (perthyn i'r gymuned, cael eich trin â pharch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol)<br>• cyfraniad at gymdeithas<br>• llesiant cymdeithasol ac economaidd<br>• addasrwydd cartref unigolyn<br>• rheolaeth yr unigolyn dros ei fywyd beunyddiol, ei ofal a'i gymorth a sut mae'r rhain yn cael eu darparu<br>• urddas personol a thrin unigolion â pharch.<br><br>**Mewn perthynas â phlant, mae iechyd a llesiant hefyd yn cynnwys:**<br>• datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol<br>• llesiant y plentyn: anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol.<br><br>**Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant yn cynnwys:**<br>• amgylcheddau economaidd, corfforol a chymdeithasol<br>• nodweddion ac ymddygiadau unigolyn.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall mai mwynhau'r safon orau posibl o iechyd a llesiant yw un o hawliau sylfaenol pob unigolyn heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, cred grefyddol, cyflwr economaidd neu gymdeithasol a pham mae hyn yn bwysig. |
| 3.3 Rhwystrau i gyfranogiad | Dylai dysgwyr wybod a deall y rhwystrau i gymryd rhan, herio anghydraddoldeb a hybu hawliau unigolion.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Rhwystrau i gyfranogiad:**<br>• rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol: iaith, defnyddio lefel iaith sy'n anhygyrch, argaeledd cyfieithwyr, gwybodaeth mewn fformatau amgen e.e. sain, braille, print bras<br>• rhwystrau amgylcheddol: mynediad priodol i adeiladau, byw mewn ardaloedd pellennig yn bell o wasanaethau, trafnidiaeth hygyrch<br>• rhwystrau ariannol: cost cael mynediad at y gwasanaeth, parcio ceir a thocynnau bws<br>• corfforol: oed, anabledd, rhywedd, colli synhwyrau<br>• rhwystrau seicolegol:<br>    • barn unigolion am wasanaeth<br>    • efallai na chafwyd profiadau blaenorol da<br>    • ofni'r anhysbys. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 3.4 Hybu hawliau unigolion | **Hybu hawliau unigolion:**<br>• gwybod beth yw hawliau unigolion<br>• dweud wrth unigolion pa hawliau sydd ganddyn nhw<br>• mynd ati i ddangos ymarfer nad yw'n gwahaniaethu<br>• cadw at safonau a chodau proffesiynol<br>• cynnal dewis a llesiant unigolion<br>• cynnal egwyddorion gofal.<br><br>**Dulliau o hybu hawliau**<br><br>Yn cynnwys:<br>• grymuso unigolion i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau<br>• annog hunanbenderfyniad<br>• cael caniatâd gan unigolyn cyn cael triniaeth neu ofal a chymorth (cydsyniad gwybodus)<br>• model dwyochrog, dull sy'n seiliedig ar hawliau<br>• gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu<br>• polisïau a chynlluniau gofal a chymorth personol<br>• cydymffurfio â chodau ymddygiad/ymarfer<br>• annog cyfranogiad gweithredol<br>• cydweithio drwy gydgynhyrchu a datblygiad cymunedol<br>• datblygu ymwybyddiaeth feirniadol<br>• mynediad at addysg<br>• darparu llais drwy eiriolaeth.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall bod sawl ymgyrch, menter a strategaeth ar hyn o bryd sy'n hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Strategaethau a mentrau e.e.** Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio i Wireddu Dyfodol Iachach i Gymru<br><br>**Ymgyrchoedd sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau o'r trydydd sector** e.e. Mind – Amser i Newid Cymru, Cymdeithas Alzheimer – Cynllun Gweithredu Dementia i Gymru.<br><br>Mae'r enghreifftiau o strategaethau, mentrau ac ymgyrchoedd ar y rhestr uchod yn gallu newid dros amser a dylid eu disodli â strategaethau, mentrau ac ymgyrchoedd eraill wrth iddyn nhw gael eu lansio. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 3.5 Deddfwriaeth sy'n sail i hawliau unigolion | Dylai dysgwyr wybod a deall bod deddfwriaeth yn sail i strategaethau a mentrau ar gyfer hybu hawliau unigolion i wella iechyd a llesiant.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>• Deddf Hawliau Dynol 1998: sicrhau bod hawliau dynol ar gael i bawb yn y DU<br>• Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011: rhoi dyletswydd ar weinidogion Cymru i roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (OHCHR)<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010: ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD)<br>• Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Byw Heb Ofn, Gofyn a Gweithredu yn rhoi'r fframwaith strategol ar gyfer gwella trefniadau i atal, amddiffyn a chefnogi'r sawl a effeithir gan bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: mae cyrff cyhoeddus i fod i nodi amcanion llesiant, gweithio cydweithredol ac atebolrwydd i gyfateb i'r saith nod llesiant. |

# Uned 4

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | **Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol** |
| **ODA:** | 90 |
| **Meysydd cynnwys:** | 4.1 Mathau o heintiau a'u hachosion, y ffyrdd mae heintiau'n cael eu trosglwyddo a'r cyflyrau dilynol.<br>4.2 Achosion ac effeithiau amrywiaeth o gyflyrau ffisiolegol.<br>4.3 Sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.<br>4.4 Gofal a chymorth wrth fyw gyda chyflyrau a heriau ffisiolegol.<br>4.5 Strategaethau lleihau risgiau y gellir eu gweithredu er mwyn cefnogi iechyd a llesiant. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin; y mathau o gyflyrau a'u hachosion, a byddant yn ymchwilio i'r ffordd y gallant effeithio ar y corff dynol, yn ogystal â'r gofal a chymorth sydd ar gael i unigolion sy'n byw gyda chyflyrau ffisiolegol a'r heriau y gallent eu hwynebu.<br><br>Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a feithriniwyd drwy unedau 1-3. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau wedi'u gosod gan CBAC sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol. Tasg yw hon sy'n seiliedig ar ddau ysgogiad a gynhwysir yn y pecyn asesu sydd ar gael i ganolfannau o wefan ddiogel CBAC ar ddydd Llun cyntaf mis Medi bob blwyddyn.<br><br>Bydd y tasgau ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn yn parhau yr un fath am oes y fanyleb fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** wrth ysgrifennu eu hasesiad<br>• **rhifedd:** dehongli data ar anhwylderau ffisiolegol<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth gynllunio eu haseiniad<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ymchwilio i glefyd ffisiolegol<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** wrth ddylunio a chyflwyno ffeithlun<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

<table>
<tr><th colspan="2">Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol</th></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>4.1 Mathau o heintiau a'u hachosion, y ffyrdd mae heintiau'n cael eu trosglwyddo a'r cyflyrau dilynol.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall bod haint yn cael ei achosi pan fydd organeb estron yn ymledu i feinweoedd y corff a bod sawl math gwahanol o haint.<br><br>Termau cyffredin i gynnwys:<br>• cyflwr heintus: cyflwr yw hwn a achosir gan ficro-organeb; gall cyflwr heintus fod yn rhywbeth sy'n drosglwyddadwy neu ddim yn drosglwyddadwy<br>• cyflwr anhrosglwyddadwy: cyflwr yw hwn nad yw'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol o un unigolyn i'r llall<br>• cyflwr trosglwyddadwy: cyflwr yw hwn sy'n gallu cael ei drosglwyddo o un unigolyn i'r llall<br>• haint systemig: haint sy'n cael ei achosi'n bennaf gan firws neu facteria sy'n lledaenu drwy systemau'r corff e.e. sepsis<br>• haint lleol: mae haint lleol yn cael ei hachosi'n bennaf gan facteria neu firws lle mae'r symptomau wedi'u cyfyngu i un ardal e.e. clwyf wedi'i heintio<br>• heintiau acíwt: mae'r rhain fel arfer yn ymddangos yn ddirybudd neu'n para am gyfnod byr o amser e.e. ffliw<br>• heintiau cronig: gallant ddigwydd dros gyfnod estynedig o amser a phara am fisoedd neu flynyddoedd e.e. osteomyelitis<br>• heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd: mae'r rhain yn gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd mewn amgylchedd gofal iechyd ac wedi'u hachosi naill ai gan ymyriadau gofal iechyd fel triniaeth feddygol neu lawfeddygol neu gysylltiad â lleoliad gofal iechyd<br>• pathogenau: bacteria, ffyngau, firysau, protosoa, parasitiaid<br>• heintiau prion: protein prion sy'n gallu achosi i'r proteinau sydd i'w cael fel arfer yn yr ymennydd blygu mewn ffordd annormal i achosi clefyd niwroddirywiol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall yr heriau tymor hir sy'n gallu digwydd ar ôl cael heintiau systemig neu leol, e.e. clefyd Lyme, meningitis, malaria a allai arwain at yr angen i gael gofal a chymorth.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y gylchred ar gyfer trosglwyddo heintiau.<br>Yn cynnwys y chwe chyswllt yng nghadwyn yr haint:<br>• cyfrwng heintus<br>• cronfeydd<br>• porth gadael<br>• modd trosglwyddo<br>• porth mynediad<br>• organeb letyol agored i haint.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae micro-organebau yn mynd i mewn i'r corff dynol.<br>Yn cynnwys:<br>• trosglwyddo yn yr aer<br>• amlynciad<br>• drwy hylifau'r corff<br>• trosglwyddo gan gludwyr<br>• trosglwyddo gan ddŵr.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td></td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall bod modd torri cylchred drosglwyddo heintiau er mwyn atal trosglwyddo'r haint. Mae hyn yn digwydd drwy dorri cadwyn yr haint a thynnu un neu fwy o'r dolenni yn y gadwyn e.e. drwy ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol, golchi dwylo ac ati<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall amrywiaeth o fathau gwahanol o heintiau a bod symptomau haint yn dibynnu ar yr organeb sy'n gyfrifol yn ogystal â safle'r haint.<br><br>Yn cynnwys mathau cyffredin o heintiau a'u hachosion:<br>• haint bacteriol e.e. clefyd Lyme, llid yr ymennydd, niwmonia, twbercwlosis (TB)<br>• haint ffwngaidd e.e. tarwden, heintiau yn y llygaid a'r ewinedd<br>• haint firol e.e. y ffliw, gastroenteritis, brech yr ieir, twymyn y chwarennau<br>• haint protosoaidd e.e. tocsoplasmosis, malaria<br>• haint parasitig e.e. llyngyr, gwiddon a llau<br>• haint prion e.e. clefyd niwroddirywiol, Clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD).</td></tr>
<tr><td>4.2 Achosion ac effeithiau amrywiaeth o gyflyrau ffisiolegol.</td><td>Cyflwr ffisiolegol yw pan fydd diffyg o ran gweithrediad yr organau yn y corff a bydd hyn yn achosi symptomau a all arwain at afiechyd. Dylai dysgwyr wybod a deall achosion ac effeithiau amrywiaeth o gyflyrau ffisiolegol.<br><br>Yn cynnwys:<br>Enghreifftiau o achosion o gyflyrau ffisiolegol:<br>• y broses heneiddio e.e. dementia, osteoarthritis – er bod heneiddio yn ffactor risg ar gyfer y cyflyrau hyn, nid ydynt yn ganlyniadau sy'n anorfod o'r broses heneiddio<br>• clefydau awtoimiwn – yn digwydd pan mae'r mecanwaith sy'n galluogi'r system imiwnedd i adnabod y gwahaniaeth rhwng celloedd y corff a chelloedd allanol yn torri i lawr; mae hyn yn achosi i'r corff ymosod ar ei gelloedd ei hun mewn camgymeriad<br>• diffyg maethol e.e. anaemia, y llech ac osteomalacia<br>• amgylchedd/dewisiadau ffordd o fyw e.e. clefyd yr afu/iau sy'n gysylltiedig ag alcohol, diabetes math 2<br>• etifeddol e.e. dystroffi cyhyrol, ffibrosis cystig<br>• anaf adeg geni e.e. parlys yr ymennydd.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall yr effeithiau y gall cyflyrau ffisiolegol eu cael ar unigolion a'r effaith ar weithgareddau bywyd bob dydd.<br><br>Yn cynnwys:<br>• effaith ar iechyd meddwl ac iechyd emosiynol yr unigolyn, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach<br>• heriau cyflogaeth e.e., addasu gweithfannau, newid cynllun lleoedd gwaith, darparu toiledau a/neu ystafelloedd newid hygyrch<br>• heriau symudedd e.e. o achos poen yn y cymalau, gwendid cyhyrol, parlys, problemau cydbwysedd, gordewdra<br>• cymeriant maethol a hydradu<br>• hylendid personol e.e., ymolchi, gofal y geg, mynd i'r toiled, gofal gwallt, gwisgo</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>effaith seicolegol e.e., newidiadau i hunanbarch, pryder am effeithiau tymor hir cyflwr, teimlo galar/dicter/tristwch, ofni triniaeth neu driniaethau meddygol, ofni teimlo embaras yn gorfod dibynnu ar bobl eraill, pryderon ynghylch newidiadau corfforol posibl i'r ymddangosiad neu ddelwedd y corff</li><li>rhyngweithio cymdeithasol e.e. encilio o weithgareddau cymdeithasol, gorfod esbonio diagnosis, teimlo embaras oherwydd eu diagnosis.</li></ul></td></tr>
<tr><td>4.3 Sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall y cyflyrau cyffredin a geir yng Nghymru ac effaith y rhain ar y corff dynol.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>Cyflyrau cyffredin:<ul><li>yn effeithio ar y system gardiofasgwlar e.e., clefyd coronaidd y galon, angina, arhythmia, strôc</li><li>yn effeithio ar y system resbiradol e.e. asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)</li><li>yn effeithio ar y system nerfol e.e., clefyd niwronau echddygol (MND), clefyd Parkinson, anaf sbinol</li><li>yn effeithio ar y system endocrinaidd e.e., diabetes (math I, math II, beichiogrwydd), isthyroidedd, gorthyroidedd</li><li>yn effeithio ar y system dreulio e.e., syndrom coluddyn llidus (IBS), clefyd coeliag, clefyd Crohn</li><li>alergeddau e.e., alergeddau bwyd, anaffylacsis</li><li>canser (y canserau mwyaf cyffredin yng Nghymru: y fron, prostad, ysgyfaint, coluddyn a melanoma)</li><li>cyflyrau heintus e.e. ffliw, y frech goch, meningitis, MRSA, clwy'r pennau, norofirws, twbercwlosis (TB), y pas.</li></ul>Effaith y cyflyrau cyffredin uchod:<ul><li>arwyddion a symptomau</li><li>effeithiau tymor byr cyffredin</li><li>effeithiau tymor hir cyffredin</li><li>posibilrwydd o'r effaith leiaf ar fyw o ddydd i ddydd</li><li>posibilrwydd o effaith fawr ar fyw o ddydd i ddydd</li><li>anghenion gofal tebygol ac/neu /cefnogaeth ar gyfer yr unigolyn, ei deulu, ei ffrindiau a'i gylch ehangach.</li></ul></td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 4.4 Gofal a chymorth wrth fyw gyda chyflyrau a heriau ffisiolegol. | ***Dylai*** dysgwyr ***wybod a deall*** anghenion gofal a chymorth unigolion wrth fyw gyda chyflyrau a heriau ffisiolegol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **nodi asedau a chryfderau'r unigolyn** – drwy ganolbwyntio ar asedau a chryfderau unigolyn sy'n byw gyda chyflwr sy'n effeithio ar sut mae'n byw o ddydd i ddydd, ni fydd ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn anwybyddu'r heriau mae unigolion yn eu hwynebu; yn hytrach, byddant yn edrych ar y pethau cadarnhaol fel bod modd defnyddio dull seiliedig ar gryfderau yn y gofal a roddir<br>• **diagnosis a monitro'r cyflwr** – gall hyn gynnwys edrych ar hanes meddygol yr unigolyn, archwiliad corfforol, sganiau a sganiau pelydr X, profion gwaed a throeth neu lawdriniaeth fach (cymryd biopsi er enghraifft), monitro amlddisgyblaethol a/neu amlasiantaethol<br>• **asesu anghenion gofal a chymorth er mwyn adnabod canlyniadau llesiant personol** – er mwyn sicrhau bod anghenion llesiant yr unigolyn yn cael eu bodloni, er mwyn sicrhau bod gan yr unigolyn lais/dewis/rheolaeth dros yr ofal a'r cymorth mae'n eu derbyn, er mwyn cynorthwyo'r unigolyn i fod mor annibynnol â phosibl<br>• **ymyriadau, gofal, cefnogaeth a chyngor er mwyn gwella iechyd a llesiant** e.e., meddyginiaeth, addasiadau i'r cartref, grwpiau cefnogi<br>• **cefnogi unigolion** â thasgau byw o ddydd i ddydd<br>• **gofal seibiant** – wedi'i ddarparu yng nghartref yr unigolyn ei hun, mewn canolfannau dydd, hosbis, lleoliadau preswyl neu ofal nyrsio<br>• **rhaglenni adsefydlu** – e.e., adsefydlu cardiaidd, adsefydlu niwrolegol, adsefydlu symudedd.<br><br>**Dylai** dysgwyr allu **cymhwyso'r** modelau amrywiol o iechyd a llesiant at amrediad o gyflyrau ffisiolegol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **model cymdeithasol:** awgrymu bod pobl yn cael eu hallgáu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu hiechyd, nam na'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol. Gall rhwystrau fod yn gorfforol e.e. adeiladau ddim yn cynnwys toiledau hygyrch neu gellir eu hachosi gan agweddau unigolion at wahaniaeth e.e. tybio na all unigolion sy'n byw ag anableddau wneud rhai pethau. Mae'r model cymdeithasol yn ein helpu i gydnabod y rhwystrau sy'n gwneud bywyd yn fwy anodd i bobl. Mae dileu'r rhwystrau hyn yn creu cydraddoldeb ac yn cynnig mwy o annibyniaeth, rheolaeth a dewis i bobl o ran eu hiechyd a'u llesiant<br>• **model meddygol:** tybio bod salwch neu afiechyd yn bodoli. Mae'n pwysleisio diagnosis clinigol ac ymyrraeth feddygol wrth drin afiechyd neu ei symptomau<br>• **model bioseicogymdeithasol:** ymgorffori dulliau rhyngweithio rhwng ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol er mwyn helpu i benderfynu pam mae anhwylder ar unigolyn o bosibl. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 4.5 Strategaethau lleihau risgiau y gellir eu gweithredu er mwyn cefnogi iechyd a llesiant. | Dylai dysgwyr wybod a deall y prif fentrau a strategaethau hybu iechyd presennol y gellir eu gweithredu er mwyn cefnogi iechyd a llesiant yn unol â deddfwriaeth bresennol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyflyrau** e.e., trefnu rhwydweithiau cefnogi, trefnu digwyddiadau codi arian lleol a chenedlaethol i godi ymwybyddiaeth, dylanwadu ar wleidyddion ynghylch polisïau cenedlaethol<br>• **cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau, gofal a chymorth** sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru<br>• **gwybodaeth am fentrau a strategaethau hybu iechyd cyfredol er mwyn lleihau effaith cyflyrau ffisiolegol** e.e., maeth a hydradu gwell, lleihau pwysau'r corff, cadw at drefnau meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gostwng lefelau straen, gwneud mwy o weithgarwch corfforol i gynnal symudedd<br>• **dull person-ganolog i'r holl ofal a chymorth**<br>• **cymryd risgiau cadarnhaol** - galluogi unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth i gymryd risgiau i wella ansawdd eu bywyd a rheoli'r risgiau hynny, er mwyn i unigolion allu gwneud dewis gwybodus am gymryd risgiau a chefnogi cymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol<br>• **clinigau iechyd rhywiol** – cefnogaeth, diagnosis a thriniaeth, lleihau'r stigma sy'n perthyn i glefydau cysylltiad rhywiol<br>• **cefnogaeth camddefnyddio sylweddau**<br>• **cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau** er mwyn cefnogi iechyd a llesiant i gynnwys model sy'n seiliedig ar gryfderau a gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br><br>Mae rhestr o'r strategaethau a'r mentrau diweddaraf sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn ar gael yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/. |

# Uned 5

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | **Cefnogi unigolion sy’n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael** |
| **ODA:** | 180 |
| **Meysydd cynnwys:** | 5.1 Ffactorau a allai gyfrannu at risg unigolion o ddioddef cam-drin ac esgeuluso.<br>5.2 Ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sy’n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br>5.3 Gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymddygiad/ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sy’n wynebu risg yng Nghymru a'r DU.<br>5.4 Dulliau o sicrhau hawliau unigolion sy’n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br>5.5 Sut y gall gweithwyr unigol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hybu cynhwysiant. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau a allai gyfrannu at risg unigolion o ddioddef cam-drin ac esgeuluso, gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymddygiad ac ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sy’n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a dulliau o sicrhau hawliau unigolion.<br><br>Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a feithriniwyd drwy uned 3. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy dasg y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud â'r ysgogiad a roddwyd. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gefnogi unigolion sy’n wynebu risg i gyflawni’r canlyniadau maen nhw’n dymuno eu cael.<br><br>Bydd Pecyn Asesu yn cael ei ryddhau i'r canolfannau ar wefan ddiogel CBAC ar ddydd Llun cyntaf mis Medi pob blwyddyn. Yn y Pecyn Asesu hwn bydd yr ysgogiad ar gyfer cwblhau'r tasgau.<br><br>Bydd y tasgau ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn yn parhau yr un fath am oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y deunydd asesu enghreifftiol sydd gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** wrth baratoi ar gyfer asesiad<br>• **rhifedd:** drwy ddehongli data<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth baratoi ar gyfer yr asesiad.<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ystyried dulliau a ddefnyddir wrth ddiogelu hawliau unigolion mewn iechyd a gofal cymdeithasol<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Uned 5: Cefnogi unigolion sy’n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 5.1 Ffactorau a allai gyfrannu at risg unigolion o ddioddef cam-drin ac esgeuluso. | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau a allai gyfrannu at risg unigolion o ddioddef cam-drin ac esgeuluso.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **straen gofalwyr:** e.e. rhwystredigaeth, teimlo dan bwysau ac yn methu ymdopi, diffyg gofal seibiant, newid mewn sefyllfa ariannol<br>• **dibyniaeth:** e.e. plant, unigolion hŷn, unigolion sy'n byw ag anableddau (yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol a namau gwybyddol) yn aml yn fwy agored i niwed am eu bod yn dibynnu ar eraill neu'n ddibynnol arnynt i gael gofal a chymorth<br>• **anghydfod teuluol:** e.e. efallai y bydd unigolion sydd wedi wynebu camdriniaeth/trais domestig yn credu bod yr ymddygiad hwn yn dderbyniol<br>• **ynysu:** e.e. allgáu cymdeithasol, methu â manteisio ar rwydweithiau cefnogi, diffyg mynediad i wybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth mewn perthynas â sut y gellir eu hamddiffyn<br>• **cyflyrau meddygol/seicolegol:** e.e. afiechyd meddwl, lefelau isel o hunanhyder a hunan-barch, anawsterau cyfathrebu<br>• **gallai ffactorau eraill gynnwys:** credoau crefyddol/hil/cyfeiriadedd rhywiol/gwahaniaethau, camddefnyddio sylweddau, safle yn y teulu/gwneud bwch dihangol, diffyg ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu fonitro gweithwyr i sylwi ar neu ddelio gyda materion diogelu. |
| 5.2 Ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sy’n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau a all effeithio ar hawliau unigolion sy’n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• oedran yr unigolyn a'i ddealltwriaeth o'i hawliau fel unigolyn<br>• agweddau unigolion sy'n gweithio mewn lleoliadau sy'n hybu gofal person-ganolog.<br>• darpariaeth adnoddau: e.e. gweithwyr, clinigau, cartrefi gofal, canolfannau gofal dydd, cludiant i apwyntiadau<br>• y gallu i ddeall gwybodaeth neu i wneud penderfyniad<br>• y gallu i gyfathrebu<br>• mewnbwn teulu a gofalwyr a'u hymwybyddiaeth o hawliau'r unigolion<br>• ynysigrwydd<br>• materion sy'n ymwneud â phan fydd hawliau'r unigolyn a safbwyntiau'r teuluoedd/gofalwyr yn gwrthdaro<br>• diffyg eiriolaeth<br>• nodweddion personol unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• cydnabod bod gan ofalwyr yr hawl i gael eu cefnogi<br>• gwasanaethau cefnogi i ofalwyr ifanc. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 5.3 Gofynion deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymddygiad/ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sy'n wynebu risg yng Nghymru a'r DU. | Dylai dysgwyr wybod am ofynion deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymarfer/ymddygiad ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sy'n wynebu risg yng Nghymru a'r DU a meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r gofynion hynny.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rhannau perthnasol o'r Ddeddf Plant (2004)<br>• Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (2019)<br>• Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru<br><br>Yn cynnwys rôl:<br>**Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol:** sefydlwyd o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol dair prif ddyletswydd:<br>• rhoi cefnogaeth a chyngor i fyrddau diogelu gan sicrhau eu bod yn effeithiol<br>• cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau<br>• adrodd ar effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.<br><br>**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol:** yn cynnwys Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion yn rhan ohonyn nhw.<br><br>**Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP):** corff amlasiantaethol yw hwn i hybu llesiant plant a gafodd ei sefydlu dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Amcanion yw gwneud y canlynol:<br>• amddiffyn plant yn ei ardal sy'n profi, neu'n wynebu risg o ddioddef cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed<br>• atal plant yn ei ardal rhag wynebu risg o ddioddef cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed.<br><br>**Bwrdd Diogelu Oedolion (SAB):** partneriaeth amlasiantaethol yw hon i hybu llesiant oedolion a gafodd ei sefydlu dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Amcanion yw gwneud y canlynol:<br>• amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn bodloni'r anghenion hynny ai peidio) sy'n profi neu'n wynebu risg o ddioddef cam-drin neu esgeuluso.<br>• atal oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth rhag wynebu risg o ddioddef cam-drin neu esgeuluso.<br><br>Dylai fod gan ddysgwyr ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu a gwybod beth, pa bryd a sut i roi gwybod am bryderon yn ymwneud â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr wybod a deall dogfennau statudol yn ymwneud â diogelu.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>• Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:<br><br>• beth yw ystyr y term 'diogelu<br>• beth yw ystyr y termau 'oedolyn sy'n wynebu risg', 'plentyn sy'n wynebu risg', 'cam-drin' ac 'esgeuluso'<br>• sut i weithredu os ydych chi'n dyst i achos o gam-drin, niwed neu esgeuluso neu'n amau eu bod yn digwydd, neu os yw rhywun yn dweud wrthych chi eu bod yn cael eu cam-drin<br>• bod gennych chi ddyletswydd i roi gwybod am gam-drin, niwed neu esgeuluso<br><br>Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r deddfau sy'n ymwneud â diogelu.<br><br>• Gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf (llyw.cymru)<br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r broses o ymdrin ag achos lle mae amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg.<br><br>• Gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf (llyw.cymru)<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r broses o ymdrin ag achos lle mae amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 5.4 Dulliau o sicrhau hawliau unigolion sy'n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. | Dylai dysgwyr wybod a deall arferion a dulliau ar gyfer sicrhau hawliau unigolion sy'n wynebu risg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Arferion a all ddiogelu unigolion yn cynnwys:<br><br>• meithrin cydberthynas ag unigolion<br>• sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo bod ganddo lais, dewis a rheolaeth<br>• sicrhau bod pob darn o ddeddfwriaeth a chod ymarfer yn cael ei roi ar waith a'i ddilyn a'r canlyniadau os na lwyddir i wneud hynny<br>• darparu amgylchedd diogel.<br><br>Dulliau yn cynnwys:<br>• gwybodaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ddiogelu i weithwyr proffesiynol ac unrhyw bobl eraill a allai weld tystiolaeth neu gael datgeliadau e.e., gyrwyr tacsi ysgolion arbennig<br>• cyfranogiad gweithredol: ffordd o weithio sy'n cefnogi hawl unigolyn i gymryd rhan yn y gweithgareddau a pherthnasoedd bywyd pob dydd mor annibynnol â phosibl<br>• eiriolaeth: mae eiriolwyr yn hysbysu unigolion o'u hawliau, maen nhw'n eu cefnogi i fynegi eu barn a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed<br>• grymuso: annog unigolyn i fod yn fwy rhagweithiol mewn perthynas â'i iechyd ac wrth wneud penderfyniadau am ofal a chymorth<br>• egwyddorion gofal: disgrifio'r ffordd y dylai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymddwyn tuag at unigolion yn eu gofal er mwyn sicrhau bod gan yr unigolyn yr hawl i ddewis, urddas a pharch<br>• deddfwriaeth gyfredol: sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu cynnal<br>• gofal personol: nodi'r hyn sydd bwysicaf i unigolyn iddo gael bywyd da a sicrhau bod y gofal a'r cymorth mae'n eu cael yn sicrhau bod ei ganlyniadau'n cael eu cyflawni<br>• llywodraethu: dyma'r broses a ddefnyddir gan y sector iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau y darperir gwasanaethau o safon ac i hybu canlyniadau da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael gofal o safon. |

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>5.5 Sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol unigol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hybu cynhwysiant.</td><td>
Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol unigol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt hybu cynhwysiant.
Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnwys:
<table>
<tr><th>Gweithwyr Gofal Iechyd</th><th>Gweithwyr Gofal Cymdeithasol</th></tr>
<tr><td>Nyrs</td><td>Gweithiwr gofal (gweithiwr gofal yn y cartref, gweithiwr gofal oedolion, gweithiwr gofal cymdeithasol,).</td></tr>
<tr><td>Seicolegydd/Cwnselydd</td><td>Gofal nyrsio wedi'i ddarparu gan nyrsys cofrestredig</td></tr>
<tr><td>Seiciatrydd</td><td>Gweithiwr cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>Gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd</td><td>Gweithiwr cymunedol ac allgymorth</td></tr>
<tr><td>Therapydd iaith a lleferydd</td><td>Rheolwr Gofal yn y Cartref</td></tr>
<tr><td>Ffisiotherapydd</td><td>Rheolwr cartref gofal oedolion</td></tr>
<tr><td>Deietegydd</td><td>Eiriolwyr</td></tr>
<tr><td>Therapydd Galwedigaethol</td><td></td></tr>
<tr><td>Bydwraig</td><td></td></tr>
</table>
Ffyrdd y gall y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol unigol a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu hybu cynhwysiant yn cynnwys:
<ul>
<li>arddangos egwyddorion gofal/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt</li>
<li>adeiladu ar unrhyw ymarfer da presennol y gallent fod yn ymwybodol ohono</li>
<li>sicrhau bod dulliau cyfathrebu bob amser yn glir ac yn yr iaith a'r fformat o ddewis</li>
<li>sicrhau nad oes:
<ul>
<li>gwahaniaethu drwy gysylltiad: h.y., cysylltiad unigolyn ag unigolyn arall sy'n perthyn i grŵp gwarchodedig perthnasol fel: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol</li>
<li>gwahaniaethu drwy ganfyddiad: h.y., gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd canfyddiad ar gam bod ganddo nodwedd warchodedig</li>
<li>aflonyddwch: h.y., pwysau ymosodol neu frawychu</li>
</ul></li>
<li>herio unrhyw ymarfer gwahaniaethol a hybu ymarfer cynhwysol</li>
<li>mynediad teg drwy sicrhau cyfleoedd cyfartal a phriodol i bawb/heb fabwysiadu un dull i bawb/gwneud addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol</li>
<li>mabwysiadu agwedd a dull da mewn perthynas â chefnogi unigolion isicrhau nad ydyn nhw'n cael eu hallgáu neu eu hynysu</li>
<li>gwybod pryd mae'n briodol i 'chwythu'r chwiban'</li>
<li>gwrando ar unigolion er mwyn sicrhau eu bod bob amseryn cael llais</li>
<li>cefnogi amrywiaeth drwy dderbyn a chroesawu yr hyn sy'n gwneud unigolyn yn wahanol drwy weithio mewn ffyrdd nad ydynt yn barnu</li>
<li>trin pob unigolyn mewn ffordd unigryw, gydag urddas a pharch.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

# Uned 6

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol |
| **ODA:** | 90 |
| **Meysydd cynnwys:** | 6.1 Rolau swyddi, cymwysterau a sgiliau y mae eu hangen ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.<br>6.2 Rôl dulliau cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal.<br>6.3 Sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn cael eu dilyn a'u cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>6.4 Rôl cyflogwyr wrth hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogai.<br>6.5 Diogelu wrth ymarfer.<br>6.6 Sut y defnyddir dulliau mewn lleoliadau i fodloni anghenion a gofynion unigolion.<br>6.7 Sut mae deddfwriaeth Cymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol<br>6.8 Rôl myfyrio mewn lleoliadau gofal.<br><br>Argymhellir yn gryf bod athrawon yn addysgu meysydd pwnc 6.3 a 6.7 mewn modd cyfannol. |
| **Trosolwg o'r uned:** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy addysgu yn yr ystafell ddosbarth a thrwy ddulliau ymgysylltu **gorfodol** â'r sector (isafswm o 100 awr, y mae'n rhaid iddynt gynnwys 60 awr o leoliad gwaith). Bydd angen i ddysgwyr gadw dyddiadur myfyriol o'u profiadau.<br><br>Noder bod y cynnwys yn 6.1 yn adeiladu ar y wybodaeth a feithriniwyd drwy uned 1.1.<br><br>Anogir canolfannau i sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod dysgwyr yn cael profiad o ddau leoliad o leiaf yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r sector. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau wedi'u gosod gan CBAC ac yn seiliedig ar gyfnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith y dysgwyr.<br><br>Bydd y dasg ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac mae wedi'i chyhoeddi yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** yn eu dyddiadur myfyriol<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** drwy gynllunio a threfnu eu lleoliad<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth gymhwyso egwyddorion a chysyniadau a ddysgir mewn unedau eraill at leoliadau gwaith<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** yn eu dyddiadur myfyriol<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

<table>
<tr><th colspan="2">Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol</th></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>6.1 Rolau swyddi, cymwysterau a sgiliau y mae eu hangen ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall amrywiaeth eang o swyddi yn y sector gofal iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Yn cynnwys:<br>Rolau mewn gofal rheng flaen: timau ambiwlans, gweithwyr cefnogi gofal iechyd, gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, meddygaeth, nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, gweithwyr gweithgareddau, cynorthwywyr personol, gweithwyr adsefydlu.<br><br>Rolau mewn swyddogaethau cefnogi: ystadau a chyfleusterau, gwybodeg iechyd, rheoli, gweinyddu, cyllid, adnoddau dynol a marchnata, cogyddion neu gynorthwywyr cegin, swyddogion cadw tŷ/staff domestig, gyrwyr neu reolwyr trafnidiaeth, gweithwyr gwybodaeth cyngor a chymorth.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall bod rhai rolau proffesiynol yn cael eu rheoleiddio a bod yn rhaid i weithwyr wneud y canlynol er mwyn gallu ymarfer:<br>• cofrestru â chorff rheoleiddio<br>• meddu ar gymwysterau perthnasol a allai gynnwys gradd neu ddiploma israddedig.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:<br>• bod sgiliau swydd-benodol yn cynnwys y galluoedd hynny sy'n golygu y gall unigolyn gyflawni swydd benodol mewn ffordd gymwys<br>• y sgiliau y mae eu hangen er mwyn cyflawni o leiaf dwy swydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Adnoddau/ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys:<br>• Gyrfa Cymru www.gyrfacymru.com<br>• Gwefan GIG Cymru Hafan - GIG Cymru<br>• Fframwaith Cymhwyster Gofal Cymdeithasol Cymru https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 6.2 Rôl cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal. | Dylai dysgwyr wybod a deall rôl cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn y sector gofal, a gallu rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae hyn wedi cael ei ddangos wrth iddynt ymgysylltu â'r sector.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **cyfathrebu effeithiol** a'i rôl o ran darparu gofal a chymorth o ansawdd er mwyn gwella canlyniadau llesiant ar gyfer unigolion. Disgwylir i weithwyr gofal gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion er mwyn penderfynu ar eu hanghenion gofal a chymorth a datrys unrhyw broblemau mewn modd rhagweithiol<br>• **cydgynhyrchu** yw un o brif egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n golygu cydweithio ag unigolion a chynnwys yr unigolyn ei hun, ei deulu, ffrindiau a gofalwyr er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn y gorau y gall fod<br>• **cydweithredu** yw sail llwyddiant mewn unrhyw dîm. Pan fydd darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio ar y cyd, mae canlyniadau unigol ac ansawdd eu gofal yn tueddu i wella<br>• mae **gwaith tîm** yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn dod â phobl sydd â sgiliau, agweddau a doniau gwahanol ynghyd er mwyn darparu'r gofal a'r driniaeth orau posibl i unigolion<br>• mae **proffesiynoldeb** yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ddisgwyliedig gan unigolion sy'n cael gofal a chymorth.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall bod cyfathrebu effeithiol, cydgynhyrchu, cydweithredu, gwaith tîm a phroffesiynoldeb yn cefnogi'r canlynol:<br>• safon uchel o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• gwasanaeth di-dor rhwng pob math o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>• amgylcheddau gwaith gwell i staff ac unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth, yn cynnwys y model cydgynhyrchu<br>• profiad gwell i ofalwyr a theuluoedd unrhyw unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog.<br>• diogelwch personol unigolion ac atal camgymeriadau rhag digwydd<br>• gwaith tîm llwyddiannus ac effeithlon. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 6.3 Sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn cael eu dilyn a'u cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. | Dylai dysgwyr wybod a deall pam a sut mae rheoleiddio'r gweithlu a'r codau ymddygiad/ymarfer yn cael eu dilyn a'u cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Yn cynnwys:<br>**Codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol**:<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol<br>• Y Gweithiwr Gofal Plant Preswyl: canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru<br>• Safonau'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal<br>• Y Cod Ymarfer Gofal Cymdeithasol i Gyflogwyr<br>• Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, (heb ei reoleiddio ar hyn o bryd)<br>• Y Cod Ymarfer i Gyflogwyr GIG Cymru (heb ei reoleiddio ar hyn o bryd)<br>• Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>**Sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn cael eu dilyn a'u cymhwyso drwy'r canlynol:**<br>• dulliau cyfathrebu â phob aelod o staff<br>• hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddeall<br>• ymarfer a dulliau hybu gan y rheolwyr<br>• goruchwylio a rheoli perfformiad<br>• cwynion a gwasanaethau ategol<br>• ymrestru a rheoleiddio'r gweithlu: ymchwiliadau ac achosion ffitrwydd i ymarfer<br>• gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu wrth arolygu codau ymarfer/ymddygiad.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall rôl a phwrpas cyrff proffesiynol a buddion aelodaeth i weithwyr gofal proffesiynol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• cyrff proffesiynol e.e., Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN), Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)<br>• hybu safonau proffesiynol o ymarfer a moeseg<br>• darparu gwybodaeth a chyngor<br>• amddiffyn a chefnogi gweithwyr<br>• cynnig cyfleoedd i aelodau rwydweithio<br>• cyhoeddi dyddiaduron proffesiynol<br>• darparu cyfleoedd datblygu gyrfa.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall pwrpas undebau llafur a buddiannau aelodaeth i weithwyr gofal.<br><br>Yn cynnwys:<br>• pa eu bod yn bodoli e.e., er mwyn darparu gwell amodau gwaith i'w haelodau<br>• yr hyn maen nhw'n anelu at ei wneud e.e., amddiffyn a gwella cyflog ac amodau cyflogaeth cyflogeion. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 6.4 Rôl cyflogwyr wrth hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogai. | Dylai dysgwyr wybod am rôl cyflogwyr wrth hybu ac amddiffyn hawliau'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyflogeion sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a deall y rôl honno.<br><br>Yn cynnwys:<br>Sut mae gofynion y ddeddfwriaeth yn cael eu bodloni drwy bolisïau, gweithdrefnau a strategaethau gan gyfeirio at y canlynol:<br>• hawliau cyflogaeth sylfaenol: isafswm cyflog/cyflog byw, absenoldeb a thâl salwch, absenoldeb a thâl gwyliau, hawliau gweithwyr rhan amser<br>• materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu: deall sut i adnabod a herio achosion o wahaniaethu ac aflonyddu (Deddf Cydraddoldeb 2010)<br>• iechyd a diogelwch: egwyddorion sylfaenol (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2005)<br>• polisïau, gweithdrefnau, mentrau a strategaethau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, gan gynnwys polisïau cyfrinachedd a'r cyfryngau cymdeithasol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)).<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall bod dyletswydd gofal ar sefydliadau tuag at eu cyflogeion gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant.<br><br>Yn cynnwys:<br>• datblygu diwylliant cefnogol sy'n gyfannol ac yn gynhwysfawr<br>• mynd i'r afael â'r stigma ynghylch cael mynediad at wasanaethau cefnogi. |
| 6.5 Diogelu wrth ymarfer. | Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gellir cyflawni prosesau diogelu mewn ymarfer mewn gwahanol leoliadau.<br><br>Yn cynnwys:<br>• sicrhau bod diogelu wrth wraidd pob ymarfer<br>• pwysigrwydd camau recriwtio sy'n seiliedig ar werth a rhoi hyfforddiant sefydlu cadarn i staff<br>• adolygu a diweddaru prosesau a gweithdrefnau yn rheolaidd<br>• gwneud defnydd llawn o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn lleoliadau<br>• y ffordd y defnyddir adborth gan unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru<br>• sut y gall unigolion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fyw heb unrhyw niwed, eu cam-drin a'u hesgeuluso sy'n elfen bwysig o ofal a chymorth o ansawdd uchel<br>• sicrhau systemau cwyno effeithiol<br>• drwy'r ddyletswydd i adrodd (chwythu'r chwiban).<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y gallai torri gweithdrefnau a pholisïau diogelu arwain at y canlynol:<br><br>• cam-drin ac esgeuluso yn achos yr unigolion sy'n cael mynediad at y gofal a'r cymorth<br>• erlyn yr unigolyn sy'n torri'r gweithdrefnau a/neu y sefydliad/lleoliad gofal. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 6.6 Sut y defnyddir dulliau mewn lleoliadau i fodloni anghenion a gofynion unigolion. | Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gellir defnyddio dulliau gwahanol mewn lleoliadau gofal er mwyn bodloni anghenion a gofynion unigolion.<br><br>Yn cynnwys:<br>• **gweithgaredd sy'n seiliedig ar ddulliau:** defnyddio stori bywyd a gwaith dwyn i gof gydag oedolion sy'n byw gyda cholli cof neu ddementia<br>• **therapi ymddygiad gwybyddol:** therapi siarad a ddefnyddir i drin unigolion â gorbryder, iselder a galar<br>• **therapi ymddygiadol**: edrych ar ymddygiadau penodol a ddysgir a'r ffordd y mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar yr ymddygiadau hynny. Gall helpu i drin cyflyrau fel anhwylderau bwyta, hunan-niweidio a chamddefnyddio sylweddau<br>• **cefnogi ymddygiad cadarnhaol:** gellir ei ddefnyddio pan fydd unigolion yn dangos ymddygiadau heriol. |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 6.7 Sut mae deddfwriaeth Cymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau yng Nghymru yn effeithio ar ymarfer mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.<br>Yn cynnwys:<br>• Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Deddf Galluedd Meddyliol 2005.<br>Dylai dysgwyr wybod a deall y ffordd y mae pob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei arolygu a'i reoleiddio er mwyn sicrhau bod safonau a chanllawiau proffesiynol yn cael eu dilyn.<br><br>**Arolygiaethau a rheoleiddwyr:**<br>• **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC);** cofrestru, arolygu a gweithredu er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau<br>• **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC):** rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau<br>• **Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC):** ymrestru gweithwyr.<br>Dylai dysgwyr wybod a deall am fframweithiau arolygu a'r hyn a ddisgwylir gan leoliadau er mwyn dangos bod nodau a chanlyniadau llesiant wedi'u cyflawni'n gadarnhaol.<br>Yn cynnwys:<br>• Fframwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Fframwaith arolygu Arolygiaeth Iechyd Cymru.<br>Dylid annog dysgwyr i edrych ar adroddiadau arolygu gwasanaethau gan eu bod yn ddogfennau cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| 6.8 Rôl myfyrio mewn lleoliadau gofal. | Dylai dysgwyr wybod a deall rôl ymarfer myfyrio/myfyriol rheolaidd mewn lleoliadau gofal.<br><br>Mae myfyrio ar brosesau, polisïau a gweithdrefnau yn gwella ymarfer drwy sicrhau'r canlynol;<br>• bod pob angen unigol yn cael ei bersonoli a'i fodloni<br>• y gall gweithwyr gofal adeiladu ar eu hymarfer a gwella arno a chyfrannu at eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus<br>• bod polisïau, gweithdrefnau a dogfennau yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y ffyrdd gwahanol y cyflawnir ymarfer myfyriol mewn lleoliadau gofal.<br>Yn cynnwys:<br>• unigolion yn cynhyrchu dyddiadur myfyriol<br>• cyfarfodydd tîm a thrafodaethau rheolaidd<br>• arsylwadau gan uwch gydweithwyr<br>• arfarniadau, dulliau goruchwylio ac adolygiadau rheoli perfformiad<br>• ymwybyddiaeth, hunanfyfyrio a'r effaith arnynt eu hunain.<br>Dylai dysgwyr wybod a deall modelau a damcaniaethau ymarfer myfyriol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• Honey a Mumford – y dysgwr cyntaf yw'r myfyriwr<br>• Kolb – cylch myfyriol<br>• Schon – model myfyrio. |

# Uned 7

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):** | 120 |
| **Meysydd cynnwys:** | 7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd<br>7.2 Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol<br>7.3 Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol<br>7.4 Sut mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain |
| **Trosolwg o'r uned:** | Er mwyn gweithio'n effeithiol yn y sectorau, mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddeall anatomeg a ffisioleg y corff dynol. Mae dealltwriaeth o sut mae systemau ffisiolegol yn gweithio dan amgylchiadau arferol yn sylfaenol i gynnal iechyd da. Mae'r ddealltwriaeth hon hefyd yn hanfodol i'n galluogi i drin unigolion yn briodol pan fydd anaf, clefyd neu gyflyrau yn digwydd. Mae hefyd yn bwysig i ddeall ffactorau allanol sy'n effeithio ar y corff, a'u heffeithiau ffisiolegol. |
| **Asesu:** | Arholiad (i'w sefyll ar sgrin neu fel papur ysgrifenedig) yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys yr unedau sy'n ymwneud ag anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Mae pob cwestiwn yn orfodol. |
| **Meithrin sgiliau:** | Yn nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau:<br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** yn barod ar gyfer asesu<br>• **rhifedd:** dehongli a chyfrifo data systemau ffisiolegol<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• **cynllunio a threfnu:** wrth baratoi ar gyfer asesiad<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth gysylltu gwybodaeth am systemau'r corff ag anhwylderau ffisiolegol allweddol<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Uned 7: Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd | Dylai dysgwyr wybod a deall prif adeiledd a strwythur celloedd, meinweoedd, organau a systemau organau dynol.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Adeiledd celloedd dynol:**<br>• cellbilen<br>• niwclews<br>• amlen gnewyllol<br>• cnewyllan<br>• reticwlwm endoplasmig garw<br>• reticwlwm endoplasmig llyfn<br>• organigyn Golgi<br>• mitocondria<br>• cytoplasm<br>• lysosomau.<br><br>**Symudiad i mewn i gelloedd ac allan o gelloedd:**<br>• tryledìad syml<br>• osmosis<br>• tryledìad cynorthwyedig<br>• cludiant actif<br>• endo/ecsocytosis<br><br>**Y prif fathau o gelloedd yn y corff dynol:**<br>• bôn-gelloedd<br>• celloedd yr esgyrn<br>• celloedd y gwaed (celloedd coch y gwaed, celloedd gwyn y gwaed, platennau)<br>• meinweoedd blonegog (celloedd braster)<br>• celloedd y croen (epithelaidd, melanocytau, celloedd Langerhans, celloedd Merkel, celloedd meinweoedd cyswllt<br>• nerfgelloedd (synhwyraidd, echddygol, gliaidd)<br>• celloedd endothelaidd<br>• celloedd rhyw (celloedd sberm, ofa)<br>• celloedd pancreatig.<br><br>**Trefnu celloedd yn feinweoedd:**<br>• meinwe epithelaidd (syml a haenedig)<br>• meinwe gyswllt<br>• meinwe'r cyhyrau (cardiaidd, sgerbydol, llyfn)<br>• meinwe nerfol.<br><br>**Trefnu meinweoedd yn organau.**<br><br>**Trefnu organau yn systemau ffisiolegol.** |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
| --- | --- |
| 7.2 Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol | Dylai dysgwyr wybod a deall prif adeiledd a swyddogaeth y systemau a'r organau yn y corff.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>**Y system endocrinaidd**<br>• adeiledd a swyddogaethau'r system<br>• swyddogaeth yr organau sydd yn y system: hypothalamws, pitwidol, pineol, thyroid, parathyroid, thymws, adrenal a'r pancreas<br>• gweithred hormonau e.e. inswlin a glwcagon<br>• gweithred hormon gwrthddiwretig<br><br>**Y system nerfol**<br>• adeiledd a swyddogaethau'r system<br>• swyddogaethau'r organau sydd yn y system: prif system nerfol (ymennydd, madruddyn y cefn), system nerfol berifferol (nerfau perifferol- niwronau synhwyraidd, niwronau echddygol)<br>• ymatebion gwirfoddol<br>• system nerfol awtonomig (ymatebion anwirfoddol)<br>• ymatebion gwirfoddol.<br><br>**System gyhyrsgerbydol**<br>• adeiledd a swyddogaeth y system<br>• mathau o esgyrn:<br>  ◦ esgyrn hir, esgyrn byr, esgyrn gwastad, esgyrn afreolaidd, esgyrn sesamoid<br>• sgerbwd echelinol:<br>  ◦ creuan, asennau, sternwm, yr asgwrn cefn/meingefn (fertebra cerfigol, fertebra thorasig, fertebra meingefnol, sacrwm, asgwrn cynffon)<br>• sgerbwd atodol:<br>  ◦ pont yr ysgwydd, hwmerws, radiws, wlna, sgapwla, iliwm, pwbis, ischiwm, carpalau, metacarpalau, ffalangau, asgwrn y forddwyd, padell pen-glin, tibia, ffibwla, tarsalau, metatarsalau<br>• mathau o gymalau:<br>  ◦ ffibrog e.e., cymalau rhwng esgyrn y benglog, dant a gên<br>  ◦ cartilagaidd e.e., cymalau rhwng fertebrâu<br>  ◦ synofaidd e.e., pelen a chrau (ysgwydd, clun), colfach (penelin, pen-glin), llithro (arddwrn, troed), colyn (rhwng y pen a'r gwddf)<br>  ◦ condyloid e.e., cymalau rhwng esgyrn yn y dwylo<br>• mathau o gyhyr:<br>• cardiaidd, cyhyrsgerbydol, llyfn.<br><br>• swyddogaeth y system gyhyrsgerbydol:<br>  ◦ cynnal<br>  ◦ amddiffyn<br>  ◦ symud<br>  ◦ cynhyrchu celloedd coch y gwaed<br>  ◦ storio mwynau. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| | **System dreulio**<br>• adeiledd a swyddogaethau'r system<br>    • organau sydd yn y system: ceg, chwarren boer, oesoffagws, stumog, pancreas, iau/afu, coden y bustle, dwodenwm, coluddyn bach, coluddyn mawr, ilewm, colon, rectwm, anws.<br>• swyddogaeth yr organau yng nghamau treuliad:<br>    • amlynciad<br>    • treuliad<br>    • amsugniad<br>    • dilead.<br><br>**System gardiofasgwlar**<br>• adeiledd a swyddogaethau'r system<br>• prif gydrannau'r system:<br>    • gwaed (plasma, platennau, celloedd coch y gwaed, celloedd gwyn y gwaed, grŵp gwaed)<br>    • pibellau gwaed (rhydwelïau, gwythiennau, capilarïau, gwythienigau, rhydwelïynnau)<br>    • y galon (rhydwelïau coronaidd, siambrau, aorta, rhydweli ysgyfeiniol, vena cava, gwythïen ysgyfeiniol, cyhyr cardiaidd, falfiau)<br>    • dargludiad trydanol (nod sino-atrïaidd, nod atrio-fentriglaidd, ffibrau Purkinje, sypyn HIS)<br>• swyddogaethau'r system gardiofasgwlar:<br>    • cludo ocsigen, maetholion, hormonau<br>    • cael gwared ar gynhyrchion gwastraff (carbon deuocsid)<br>    • amddiffyn yn erbyn heintiad<br>    • cynnal tymheredd y corff.<br><br>**System resbiradol**<br>• adeiledd a swyddogaethau'r system<br>• prif organau'r system:<br>    • ceudod trwynol, ffaryncs, epiglotis, ysgyfant, tracea, bronci, bronciolynnau, alfeoli, pilenni eisbilennol, asennau, diaffram<br>• mecanweithiau anadlu:<br>    • mewnanadlu<br>    • allanadlu<br>    • cyfeintiau ysgyfaint<br>    • cyfaint cyfnewid<br>    • cyfaint anadlol<br>    • cyfaint gweddillol. |

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td></td><td>
System lymffatig
<ul>
<li>adeiledd a swyddogaethau'r system</li>
<li>prif gydrannau'r system: pibellau, nodau</li>
<li>swyddogaeth y system lymffatig:
<ul>
<li>ffurfio lymff</li>
<li>ffurfio hylif meinweol</li>
<li>draenio meinweoedd.</li>
</ul></li>
</ul>
System bilynnol (integumentary system)
<ul>
<li>adeiledd a swyddogaethau'r system</li>
<li>prif organau'r system: croen, gwallt, ewinedd a chwarennau</li>
<li>adeiledd croen: epidermis, dermis, hypodermis</li>
<li>swyddogaeth y system bilynnol</li>
<li>thermoreoli.</li>
</ul>
System imiwnedd
<ul>
<li>adeiledd a swyddogaethau'r system</li>
<li>celloedd gwyn y gwaed</li>
<li>gwrthgyrff</li>
<li>system ategol sylfaenol</li>
<li>swyddogaeth y system imiwnedd</li>
<li>imiwnedd.</li>
</ul>
System arennol (system wrinol)
<ul>
<li>adeiledd a phrif swyddogaethau'r system</li>
<li>prif organau y system: arennau, y bledren, wreterau a swyddogaeth wrthethra</li>
<li>swyddogaeth y system arennol</li>
<li>homeostasis.</li>
</ul>
System atgenhedlu
<ul>
<li>adeiledd a phrif swyddogaethau'r system</li>
<li>prif organau y system: mewn benywod, mae'r system atgenhedlu yn cynnwys yr ofarïau, y tiwbiau Fallopio, y groth, gwddf y groth, a'r gwain. Mewn gwrywod, mae hyn yn cynnwys y prostad, caill, a'r pidyn</li>
<li>swyddogaeth prif organau'r systemau atgenhedlol gwrywol a benywol wrth atgenhedlu.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 7.3 Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol | Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg ddynol (effeithiau cadarnhaol / negyddol):<br><br>**Ysmygu tybaco a chynhyrchion fepio:**<br>• effeithiau ar systemau ffisiolegol ac yn gallu achosi clefydau, er enghraifft, canser, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD).<br><br>**Defnyddio technoleg:**<br>• manteision defnyddio technoleg, er enghraifft, gallu cael mwy o reolaeth dros iechyd a llesiant drwy ddefnyddio apiau i fonitro iechyd a mwy o gyswllt a chysylltiadau cymdeithasol<br>• gall yr effeithiau ar y ffordd mae dyfeisiau ffôn symudol a chyfrifiaduron yn cael eu defnyddio gyfrannu at osgo anghywir. Gall treulio gormodedd o amser ar y sgrin a gorddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol effeithio ar y cyfnod canolbwyntio a sgiliau cymdeithasol.<br><br>**Camddefnyddio sylweddau:**<br>• gall camddefnyddio sylweddau, er enghraifft, alcohol, cyffuriau anghyfreithlon, meddyginiaeth ar bresgripsiwn a sylweddau seicowethredol arwain at gaethiwed, sy'n effeithio ar organau, er enghraifft, cirrhosis.<br><br>**Gweithgareddau Corfforol:**<br>• manteision gweithgareddau corfforol, er enghraifft, cynyddu effeithiolrwydd systemau, gostwng y risg o glefyd cardiofasgwlar, cynyddu diffiniad y cyhyrau, gostwng lefelau siwgr gwaed, cynyddu hunan-barch, cysgu'n well<br>• gall diffyg gweithgareddau corfforol effeithio ar systemau ffisiolegol gan gyfrannu at gyflyrau er enghraifft gordewdra, diabetes math 2, clefyd cardiofasgwlar.<br><br>**Maeth a hydradu:**<br>• gall manteision deiet cytbwys a hydradu iach wella pob system, gostwng pwysedd gwaed, gostwng colesterol, lleihau BMI<br>• gallai cael deiet anghytbwys a diffyg hydradu effeithio ar systemau ffisiolegol a gall achosi cyflyrau, er enghraifft, gordewdra, clefyd cardiofasgwlar.<br><br>**Straen, gorbryder ac iselder:**<br>gall effeithio ar systemau ffisiolegol, er enghraifft, cynyddu lefelau'r hormon cortisol, effeithio ar chwant bwyd a gallu'r corff i gyflawni ar lefel optimaidd.<br><br>**Iechyd rhywiol:**<br>• effeithiau rhyw diamddiffyn, er enghraifft clefydau a drosglwyddir yn rhywiol (STD) ac anffrwythlondeb, beichiogrwydd heb ei gynllunio. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 7.4 Monitro iechyd a llesiant | Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant i unigolion yng Nghymru.<br><br>Yn cynnwys:<br><br>• hybu ymddygiadau iach drwy ddatblygu dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar wedi'u cydlynu, cefnogi brechu yng Nghymru drwy'r Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy<br>• cyflwyno rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru yn seiliedig ar boblogaeth drwy'r Is-adran Sgrinio.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y ffyrdd mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.<br>Er enghraifft:<br><br>**gwneud mesuriadau corfforol:**<br>• taldra, pwysau, pwysedd gwaed, tymheredd, anterth llif, cyfradd curiad y galon, ocsimedrau pwls.<br><br>**profi sbesimenau:**<br>• lefelau siwgr gwaed, troeth.<br><br>**cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio GIG Cymru a gwiriadau iechyd eraill:**<br>• sgrinio cerfigol<br>• sgrinio'r fron<br>• sgrinio am ganser y coluddyn<br>• sgrinio AAA (anewrysm aortig abdomenol)<br>• gwiriadau optegol<br>• gwiriadau o'r ceilliau.<br><br>**defnyddio monitorau a dyfeisiau iechyd personol:**<br>• synwyryddion gwisgadwy, apiau symudol i fonitro lefelau iechyd a ffitrwydd, cloriannau clyfar.<br><br>**defnyddio technoleg ffôn symudol:**<br>• apiau fel ffordd o wella hunan-reoli llesiant. |

# Uned 8

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol |
| **Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):** | 120 |
| **Meysydd cynnwys:** | 8.1 Dulliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi oedolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant. *Mae'r maes cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n deillio o 2.2*<br><br>8.2 Strategaethau a dulliau i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br><br>8.3 Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi iechyd a llesiant unigolion<br><br>8.4 Dulliau i hybu ac amddiffyn iechyd a llesiant meddyliol oedolion |
| **Trosolwg o'r uned:** | Bellach, cydnabyddir bod cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru yn gyd-gyfrifoldeb cyfunol. Mae unigolion bellach yn cael mwy o ddewis i deilwra eu gofal a'u cefnogaeth i sicrhau bod eu nodau iechyd personol a lles yn cael eu bodloni. Mae dysgwyr yn archwilio'r prif ddulliau a thechnegau mae ymarferwyr yn eu defnyddio i gefnogi a rheoli ymddygiad oedolion yng Nghymru ac yn ystyried ymhellach sut mae hyn yn llywio darpariaeth gofal unigol.<br><br>Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a feithriniwyd drwy uned 2. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy dasg y mae'r ddwy ohonynt yn ymwneud ag ysgogiad a fydd wedi'i ddarparu. Mae'r ddwy dasg yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.<br><br>Mae'r tasgau ar gyfer yr asesiad di-arholiad hwn wedi'u cyhoeddi yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br><br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br><br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** drwy'r holl waith ysgrifenedig ac asesiadau<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwil unigol ar-lein i gysyniadau allweddol yr uned<br>• cynllunio a threfnu: wrth gynllunio eu pecyn gwybodaeth<br>• **meddwl yn feirniadol a datrys problemau:** wrth ystyried sut gall mathau gwahanol o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi iechyd a llesiant oedolion unigol mewn gwahanol senarios/sefyllfaoedd<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** mewn tystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer y tasgau<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

<table>
<tr><th colspan="2">Uned 8: Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru</th></tr>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>8.1 Dulliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi oedolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant<br><br>Mae'r maes testun hwn yn defnyddio'r hyn sydd yn nhestunau 2.1 a 2.2 yn Uned 2</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall y cysyniadau sylfaenol sy'n ymwneud â damcaniaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf a sut maen nhw'n perthyn i ddatblygiad ac ymddygiad dynol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• Damcaniaeth Ymddygiadol, er enghraifft, Pavlov, Skinner, Watson<br>• Damcaniaeth Wybyddol a Damcaniaethau Datblygiadol eraill, er enghraifft, Aaron Beck, Piaget, Vygotsky, Erikson<br>• Model Skilled Helper Egan (damcaniaeth sy'n cysylltu'r ymddygiadol a'r gwybyddol)<br>• Damcaniaeth Fiolegol, er enghraifft Gesell<br>• Damcaniaeth Ecolegol, er enghraifft, Bronfenbrenner<br>• Damcaniaethau Datblygu Dynol, er enghraifft, Heneiddio, Ymlyniad, Ymddieithrio, Natur/Magwraeth<br>• Damcaniaeth Ddyneiddiol, er enghraifft, Maslow, Rodgers<br>• Seicogymdeithasol, er enghraifft, Erikson<br>• Damcaniaeth Dysgu Cymdeithasol, er enghraifft, Bandura, Vygotsky<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall amrediad o ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolion ac yn gallu arwain at ymddygiad heriol.<br><br>Yn cynnwys:<br>• anghenion dysgu ychwanegol<br>• newidiadau sy'n ymwneud ag oedran er enghraifft, dementia<br>• cyflyrau iechyd meddwl<br>• ffactorau seicolegol, er enghraifft, profiadau andwyol mewn plentyndod, symud ty, profedigaeth, iselder, ysgaru/gwahanu, anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD)<br>• gordewdra<br>• canser<br>• diabetes<br>• strôc.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall technegau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad ac ymddygiad oedolion.<br><br>Yn cynnwys:<br>• therapi anghymell<br>• therapi ymddygiadol gwybyddol ac ailstrwythuro gwybyddol<br>• therapiau cyffuriau<br>• Therapi Electrogynhyrfol (ECT)<br>• meddylfryd twf<br>• ymwybyddiaeth ofalgar<br>• seicolawdriniaeth<br>• ystafelloedd synhwyraidd<br>• dadsensiteiddio systematig<br>• rhaglenni atgyfnerthu â thalebau.</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr ddeall sut gellir defnyddio'r technegau hyn i gefnogi datblygiad a rheoli ymddygiad.<br>Er enghraifft:<br>• therapi ymddygiadol gwybyddol i gefnogi oedolion sydd wedi profi digwyddiad bywyd anrhagweladwy, iselder a gorbryder.<br><br>• dadsensiteiddio systematig, therapi anghymell â rhaglenni atgyfnerthu â thalebau i gefnogi oedolion ag anhwylderau ffobia neu anhwylderau bwyta.<br><br>• ystafelloedd synhwyraidd i gefnogi oedolion â chlefyd Alzheimer a dementia.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y cryfderau a'r cyfyngiadau sydd gan wahanol ddulliau a thechnegau o ran rheoli ffactorau allweddol a allai effeithio ar oedolion yn cyflawni eu canlyniadau iechyd a llesiant.<br><br>Yn cynnwys:<br>• materion moesegol gallen nhw gynnwys heriau o ran gwneud penderfyniadau a chydsyniad; sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gweithredu'n gyfrifol/cyfrifoldeb proffesiynol; tegwch (equity) a thegwch o ran mynediad<br>• nodweddion personol oedolion<br>• materion ymarferol<br>• tystiolaeth ategol wrth asesu effeithiolrwydd technegau/dulliau allweddol. |
| 8.2 Strategaethau a dulliau i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol | Dylai dysgwyr wybod a deall amrediad o strategaethau a dulliau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio i gefnogi patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn oedolion a sut gall y strategaethau a'r dulliau hyn fod yn ddefnyddiol wrth fodloni iechyd a llesiant oedolion.<br><br>Yn cynnwys:<br>• gofal person-ganolog, gan gynnwys cefnogaeth weithredol a'r Cynllun Pili Pala ar gyfer pobl gyda dementia<br>• cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• therapi hel atgofion<br>• dull adferol<br>• system goleuadau traffig. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 8.3 Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi iechyd a llesiant unigolion | Dylai dysgwyr wybod a deall sut gall mathau gwahanol o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi iechyd a llesiant oedolion a gallu cymhwyso'r wybodaeth hon at senarios/sefyllfaoedd gwahanol.<br><br>Darpariaeth i unigolion yn cynnwys y canlynol:<br>• gwasanaethau ymyrryd ac atal cynnar: clinigau llesiant a phobl iach; canolfannau teuluol integredig grwpiau hunangymorth neu grwpiau cefnogi<br>• gwasanaethau a ddarperir fel mater o drefn a rhai na ddarperir fel mater o drefn: gofal yn y cartref, gwasanaethau preswyl neu ddydd, deietegwyr, triniaethau ffisiotherapi neu therapi galwedigaethol, gwiriadau iechyd<br>• darpariaeth statudol, breifat a thrydydd sector.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:<br><br>**Ffyrdd o asesu anghenion oedolyn, yn cynnwys:**<br>• cynnal asesiadau sy'n symlach ac yn gymesur<br>• sicrhau bod llais gan oedolion a bod y llais hwnnw'n cael ei glywed, a'u bod yn cael dewis a rheolaeth dros y gwasanaethau gofal a chymorth a allai fod eu hangen arnynt<br>• canolbwyntio asesiadau ar anghenion oedolyn a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu canlyniadau llesiant personol<br>• gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac annog oedolion i feithrin gwydnwch<br>• cadw oedolion yn ddiogel rhan eu cam-drin a'u hesgeuluso<br>• cynnal yr hawliau cyfartal er mwyn asesu gofalwyr ar gyfer cefnogaeth<br>• defnyddio cynlluniau personol i helpu oedolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.<br><br>**Ffyrdd o ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth, yn cynnwys:**<br>• ystyried gweithgareddau ystyrlon, grwpiau cefnogi a modelau iechyd cyflenwol y gallent gyfrannu'n ogystal at helpu oedolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol<br>• annog y defnydd o gymhorthion ac addasiadau i gefnogi'r unigolyn ar gyfer byw o ddydd i ddydd<br>• hybu amrywiaeth o gymorth sydd ar gael yn y gymuned ar sail cefnogaeth a gwasanaethau<br>• hybu gwasanaethau fel gofal yn y cartref neu ailalluogi fel bod pobl yn derbyn cefnogaeth i aros yn eu cartref cyn hired â phosibl gan oedi'r defnydd o wasanaethau wedi'u rheoli<br>• darparu gwybodaeth a chyngor i oedolion, gofalwyr a'u teuluoedd ynghylch canlyniadau, ymyrraeth gynnar, cefnogaeth gymunedol, cymhwystra a'r defnydd o wasanaethau gofal a chefnogi. |

| Cynnwys | Ymhelaethu |
| --- | --- |
| 8.4 Dulliau i hybu ac amddiffyn iechyd a llesiant meddyliol oedolion | Dylai dysgwyr wybod a deall dulliau o hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a llesiant oedolion.<br>Yn cynnwys:<br>• dulliau gwahanol o hybu iechyd: er enghraifft, 5 dull (meddygol, newid ymddygiadol, addysgol, person-ganolog a newid cymdeithasol), y cyfryngau torfol, apiau, y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, grwpiau cefnogi, timau cyffuriau ac alcohol cymunedol (CDAT)<br>• ymgyrchoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi unigolion i wella eu hiechyd a llesiant, er enghraifft Newid am Oes, Amser i Newid Cymru<br>• galluogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain: er enghraifft, Gofal Iechyd Darbodus, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• mentrau fel Pum Ffordd at Les, (National Economics Foundation NEF): Cysylltu, Bod yn weithgar, Bod yn sylwgar, Dal at i ddysgu a Rhoi<br>• trefniadau gweithio amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol drwy'r sector iechyd a gofal cymdeithasol cyfan a'r trydydd sector<br>• gofal iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor sy'n hybu arfer da<br>• defnyddio dangosyddion a data i lywio'r dull.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enghreifftiau o'r ymgyrchoedd ar y rhestr uchod yn newid dros amser a dylid eu disodli ag ymgyrchoedd mwy diweddar wrth iddyn nhw gael eu lansio. |

# Uned 9

| | |
|---|---|
| **Teitl yr uned:** | Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru |
| **Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):** | 120<br>Disgwylir i ganolfannau ddarparu o leiaf 45 awr o gynnwys wedi'i addysgu. |
| **Meysydd cynnwys:** | 9.1 Materion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>9.2 Y defnydd o ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>9.3 Dulliau ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>9.4 Cynllunio ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>9.5 Cyflawni ymchwil eilaidd i fater cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Trosolwg o'r uned:** | Mae ymchwil yn agwedd bwysig ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy ymchwilio mae'n bosibl canfod atebion i bethau sy'n anhysbys, llenwi bylchau mewn gwybodaeth, llywio datblygiad deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig, a thrawsnewid y ffordd mae gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu gofal.<br><br>Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o waith ymchwil sy'n digwydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw a sut mae'n cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ac iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru.<br><br>Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i'w galluogi i ymgymryd â'u gwaith ymchwil eilaidd eu hunain i fater cyfoes o'u dewis nhw ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer ymchwil pellach. |
| **Asesu:** | Asesiad di-arholiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil eilaidd eu hunain i fater cyfoes o'u dewis a chyflwyno argymhellion ar gyfer cyflawni gwaith ymchwil pellach.<br><br>Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath am oes y fanyleb ac fe'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC. |
| **Meithrin sgiliau:** | Rhagwelir y bydd astudio'r uned hon yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau.<br>Nodir enghreifftiau o gyfleoedd o'r fath isod:<br>• **cyfathrebu a llythrennedd:** trwy waith ysgrifenedig ac asesiad<br>• **rhifedd:** dehongli data ystadegol ar faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru<br>• **cymhwysedd digidol:** drwy ymchwilio ar-lein i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru<br>• **cynllunio a threfnu:** cynllunio a threfnu eu hasesiad<br>• **meddwl yn feirniadol:** wrth ymchwilio mater cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru<br>• **creadigrwydd ac arloesedd:** wrth ddehongli effaith y mater ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru<br>• **effeithiolrwydd personol:** wrth baratoi ar gyfer asesiad. |

| Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | |
|---|---|
| **Cynnwys** | **Ymhelaethu** |
| 9.1 Materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod bod mater cyfoes yn cyfeirio at fater sy'n effeithio ar bobl neu leoedd ar hyn o bryd sydd heb ei ddatrys.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o faterion cyfoes sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae enghreifftiau o faterion cyfoes cyfredol yn cynnwys:<br>• Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Adverse Childhood Experiences: ACEs)<br>• iaith a diwylliant<br>• demograffeg – y boblogaeth yn heneiddio, cyfraddau genedigaethau<br>• gwahaniaethu<br>• cyflogaeth/diweithdra – patrymau gweithio, cydbwysedd bywyd/gwaith<br>• amgylchedd – llygredd, newid hinsawdd, trosedd, mynediad i wasanaethau<br>• ecsbloetio<br>• strwythurau teuluol – Plant sy'n derbyn gofal , gofalwyr ifanc, teuluoedd rhiant sengl<br>• anffurfio organau cenhedlu benywod<br>• cyflyrau iechyd – gordewdra, canser, diabetes, strôc, dementia<br>• ffactorau ffordd o fyw – camddefnyddio sylweddau, ysmygu, alcohol, deiet/maethiad, gweithgaredd corfforol<br>• safonau byw – tai, tai fforddiadwy, costau byw, digartrefedd<br>• iechyd meddwl – gorbryder, iselder<br>• tlodi – tlodi bwyd/defnydd o fanciau bwyd<br>• radicaleiddio.<br><br>Nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn o bell ffordd, a gall dysgwyr ddewis ymchwilio i faterion eraill sydd ddim wedi'u cynnwys ymhlith yr enghreifftiau.<br>Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o un mater cyfoes sy'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion (anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol) a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. |

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethu</th></tr>
<tr><td>9.2 Y defnydd o ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall bod modd defnyddio ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y canlynol:<br>• nodi a monitro patrymau a thueddiadau mewn iechyd a llesiant<br>• gwella iechyd a llesiant unigolion<br>• hysbysu, gwella a gwerthuso'r ddarpariaeth gwasanaethau<br>• hysbysu deddfwriaeth newydd a diwygiedig<br>• hysbysu datblygiad polisïau a strategaethau i fynd i'r afael â phatrymau a thueddiadau a nodir.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y cyrff sy'n ymwneud â chynhyrchu a chyhoeddi ymchwil (gan gynnwys data) ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft:<br>• awdurdodau iechyd<br>• awdurdodau lleol<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>• StatsCymru<br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall yr amrywiaeth o ymchwil sydd ar gael yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• 1000 o Fywydau a Mwy (GIG Cymru) (Gwelliant Cymru erbyn hyn)<br>• Mesurau iechyd a lles ar gyfer plant (Llywodraeth Cymru)<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd mae angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (Llywodraeth Cymru)<br>• Arolwg Cenedlaethol Oedolion Cymru (Llywodraeth Cymru, Ystadegau Cymru)<br>• 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru)<br>• Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru (Llywodraeth Cymru)<br>• gwefan GIG Iechyd yng Nghymru<br>• Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enghreifftiau o adroddiadau ymchwil ar y rhestr uchod yn newid dros amser a dylid eu hategu ag ymchwil mwy diweddar wrth iddo gael ei gyhoeddi.</td></tr>
</table>

| Cynnwys | Ymhelaethu |
|---|---|
| 9.3 Dulliau ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng ymchwil cynradd ac ymchwil eilaidd, a data ansoddol a data meintiol.<br>Dylai dysgwyr wybod a deall methodolegau ymchwil gwahanol, gan gynnwys:<br>• arbrofion<br>• profion<br>• gwaith maes<br>• grwpiau ffocws<br>• arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol<br>• adolygiadau llenyddol, gan gynnwys adolygiadau o lyfrau, erthyglau, astudiaethau achos, cyfnodolion, cyhoeddiadau'r Llywodraeth<br>• holiaduron/arolygon<br>• cyfweliadau strwythuredig ac anstrwythuredig<br>• y defnydd o gronfeydd data ystadegol/ystadegau cyhoeddedig.<br>Dylai dysgwyr wybod a deall manteision ac anfanteision mathau gwahanol o ddulliau ymchwil.<br>Dylai dysgwyr allu gwerthuso hygrededd, dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data. |
| 9.4 Cynllunio ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithas ol | Dylai dysgwyr wybod a deall sut i gynllunio ymchwil, gan gynnwys:<br>• darparu sail resymegol glir ar gyfer project sy'n berthnasol i'r sector<br>• pennu nodau ac amcanion priodol a realistig<br>• cynllunio dulliau ymchwil priodol a pherthnasol<br>• diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant<br>• penderfynu sut bydd adnoddau, graddfeydd amser a risgiau posibl yn cael eu rheoli<br>• rheoli a blaenoriaethu gwaith<br>• gwneud ystyriaethau moesegol<br>• adnabod tuedd a mantais bosibl |
| 9.5 Cyflawni ymchwil eilaidd i fater cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Dylai dysgwyr **wybod** sut i gyflawni project ymchwil, i gynnwys:<br>• defnyddio amrywiaeth o adnoddau i gyflawni ymchwil eilaidd<br>• nodi cyfyngiadau'r ymchwil<br>• nodi patrymau a thueddiadau<br>• ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau<br>• dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol llunio barn ddilys<br>• deall materion moesegol perthnasol<br>• dod i gasgliadau wedi'u rhesymu<br>• cynnig argymhellion priodol. |

# 4. Gofynion Canolfannau

## Cymeradwyo Canolfannau a Chymwysterau

Er mwyn cynnig y cymhwyster, bydd angen i ganolfannau sicrhau bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi'u cymeradwyo. Cyfeiriwch at wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru) i gael rhagor o wybodaeth. Dylai staff canolfannau sicrhau eu bod yn gyfarwydd â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen ddysgu ar gyfer y cwrs.

## Staff canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn ac yn marcio'r asesiad mewnol allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylent:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n hyddysg yn dechnegol yn y maes maen nhw'n darparu hyfforddiant ynddo, a dylai'r wybodaeth hon fod o leiaf ar yr un lefel â'r hyfforddiant a gyflwynir
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Bydd y Consortiwm yn darparu hyfforddiant a DPP i staff cyflwyno a rheolwyr canolfannau er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a'r canllawiau yn gydnaws ar draws y sector. Cyfrifoldeb y ganolfan fydd sicrhau bod staff cyflwyno yn mynychu'r digwyddiadau hyn, fel y bo'n briodol.

# 5. Cyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd y cymwysterau

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid oes unrhyw ofynion cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

## Cyfyngiadau o ran oedran

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cymeradwyo ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd. Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw ymrestriad ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed.

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn adnabod:

- p'un a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ei gymwysterau
- unrhyw unedau y mae eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- y math a'r lefel briodol o gymwysterau.

Argymhellir gennym y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn deall gofynion y cymwysterau, eu cyfrifoldebau fel dysgwyr, a chyfrifoldebau'r ganolfan, yn llawn.

## Ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith

Wrth gwblhau'r cymhwyster Diploma a Diploma Estynedig, disgwylir i ddysgwyr dreulio o leiaf **100** awr yn ymgysylltu â'r sector, y mae'n rhaid i **60** awr o'r cyfnod hwnnw gael ei dreulio ar leoliad gwaith. Gellir ymgysylltu â'r sector mewn sawl ffordd, megis darlithoedd gwadd sy'n gysylltiedig â chynnwys yr uned, ymweliadau gan gyflogwyr, ymweliadau â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, sesiynau hyfforddi a mentora, cynlluniau cyfeillio, cyfleoedd gwirfoddoli sy'n briodol o ran oedran ac ati, wedi'u trefnu gan gyflogwyr yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys astudiaethau achos o arfer da, yn y canllawiau addysgu cysylltiedig. Mae 'Canllaw Arfer Da ar leoliadau gwaith' hefyd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

# Cofnod ymgysylltu â'r sector/lleoliadau gwaith a dyddiadur myfyriol

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gofnodi eu profiadau o ymgysylltu â'r sector a lleoliadau gwaith yn y Cofnod Ymgysylltu â'r Sector a Lleoliad Gwaith sydd ar gael ar dudalen y cymhwyster ar wefan y Consortiwm (www.dysguiechydagofal.cymru). Wrth gwblhau'r cofnod ymgysylltu â'r sector hwn, dylai dysgwyr grynhoi'r gweithgaredd, dyddiad y gweithgaredd a hyd y gweithgaredd mewn oriau. Fel arweiniad, mae enghraifft wedi'i chwblhau yn y templed. Rhaid cyflwyno'r cofnod ymgysylltu â'r sector i'w gymedroli yn unol â'r trefniadau a amlinellir ar dudalen 71.

Rhaid i ddysgwyr gadw dyddiadur myfyriol drwy gydol eu hymgysylltiad â'r sector a'u profiad mewn lleoliad gwaith. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:
- y mathau o sefydliadau a gwasanaethau y mae'r dysgwr wedi ymgysylltu â nhw ac wedi bod ar leoliad gwaith gyda nhw
- y mathau o dasgau a gweithgareddau y mae'r dysgwr wedi ymgymryd â nhw bob dydd ar leoliad gwaith
- unrhyw broblemau a rhwystrau y mae'r dysgwr wedi dod ar eu traws a'r camau gweithredu a gymerir ganddynt i'w goresgyn.

Mae gwybodaeth i ddysgwyr ar y dyddiadur myfyriol, ynghyd â thempled i'w ddefnyddio ganddynt yn y Canllaw i Ddysgwyr (www.dysguiechydagofal.cymru).

Bydd dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn eu dyddiadur myfyriol wrth gwblhau eu hasesiad ar gyfer Uned 6.

# Deunyddiau cefnogi

Mae dewis o adnoddau ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn a gellir cael gafael arnynt ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Canllawiau Addysgu
- Canllaw i Ddysgwyr
- Canllaw Gweinyddol Canolfannau.

# Cofrestru

Mae'r cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Roedd y dystysgrif ar gael i'w hardystio am y tro cyntaf yn haf 2021. Roedd y diploma ar gael i'w ardystio am y tro cyntaf yn haf 2022. Bydd y Diploma Sylfaen a'r Diploma Estynedig ar gael i'w hardystio am y tro cyntaf yn haf 2024. Wedi hynny, bydd y cymwysterau ar gael i'w hardystio bob haf.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses o gofrestru ac ardystio, gweler rhifyn cyfredol y ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC sydd ar gael ar wefan CBAC yn www.cbac.co.uk/gweinyddu/cofrestriadau/.

# Cofrestru ar gyfer unedau

Mae'n rhaid defnyddio'r cod uned perthnasol i gofrestru ar gyfer unedau unigol. Rhaid cyflwyno cofrestriadau yn ddim hwyrach na:

- 21 Hydref bob blwyddyn ar gyfer cyfres Ionawr
- 21 Chwefror bob blwyddyn ar gyfer cyfres Mehefin.

# Codau cofrestru

| | Teitl | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| Uned 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 4973N1 | |
| Uned 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | Ar-sgrin | 4973NA |
| | | Papur | 4973NB |
| Uned 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 4973N3 | |
| Uned 4 | Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | 4973N4 | |
| Uned 5 | Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | 4973N5 | |
| Uned 6 | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | 4973N6 | |
| Uned 7 | Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | Ar-sgrin | 4973NE |
| | | Papur | 4973NF |
| Uned 8 | Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | 4973N8 | |
| Uned 9 | Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | 4973N9 | |

# Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer y cymwysterau wrth wneud cais agregu (cyfnewid). Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Teitl | Codau Cofrestru |
|---|---|---|
| Cyfnewid | Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 4973CC |
| | Lefel 3 Diploma Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 4973CF |
| | Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | 4973CD |
| | Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. | 4973CE |

# Trefniadau ar gyfer asesiad allanol (Unedau 2 a 7)

Asesir Unedau 2 a 7 drwy arholiad allanol. Mae Uned 2 ar gael i'w hasesu am y tro cyntaf bob mis Ionawr a Mai/Mehefin. Bydd Uned 7 ar gael i'w hasesu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2024 a mis Mai/Mehefin 2024 a bob mis Mai/Mehefin wedi hynny. Mae'r arholiadau allanol ar gael ar bapur neu ar sgrin. Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn cofrestru ymgeiswyr gan ddefnyddio'r cod cofrestru cywir ar gyfer yr opsiwn papur neu ar sgrin.

Rhaid i ganolfannau ddilyn dogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), y gellir cael copi ohoni ar wefan y Cyd-gyngor (www.jcq.org.uk).

Bydd pob arholiad allanol (i'w gymryd naill ai ar bapur neu ar sgrin) yn:

- cynnwys:
    - Uned 2: papur 1 awr a 45 munud
    - Uned 7: papur 2 awr
- wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
- yn asesu cynnwys o bob un o'r meysydd testun yn yr uned ym mhob cyfres
- yn cynnwys uchafswm o 100 marc
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- yn asesu'r tri Amcan Asesu ym mhob cyfres
- yn asesu pob rhan o bob maes testun allweddol dros rychwant oes y fanyleb
- yn cyfateb i'r ystodau marciau canrannol a gytunwyd ar gyfer pob amcan asesu ym mhob fersiwn o'r arholiad
- dim ond yn defnyddio'r berfau gorchymyn sydd wedi'u rhestru yn yr Atodiad
- wedi'i graddio'n A - E
- ar gael yng nghyfres Ionawr a chyfres Mai/Mehefin.

# Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad (Unedau 1, 3, 4, 5, 6, 8 a 9)

Asesir Unedau 1, 3, 4, 5, 6, 8 a 9 ar ffurf asesiad di-arholiad a rhaid i ganolfannau ddilyn y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad* y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), y gellir cael copi ohoni ar wefan y Cyd-gyngor (www.jcq.org.uk). Yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn, bydd angen i ganolfannau gael polisi ar asesiadau di-arholiad ar waith; bydd hyn yn cael ei wirio fel rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Mae Unedau 1, 4 a 5 ar gael i'w hasesu yng nghyfresi Ionawr a haf bob blwyddyn. Mae Unedau 3, 6, 8 a 9 ar gael yng nghyfres yr haf yn unig.

Mae tri cham o'r broses asesu di-arholiad sy'n cael eu rheoli:

- gosod yr asesiadau
- gwneud yr asesiadau
- marcio'r asesiadau.

Mae'r paragraffau isod yn darparu trosolwg o bob un o'r camau hyn. Mae'r tabl ar dudalennau 71-74 yn crynhoi'r trefniadau ar gyfer pob asesiad di-arholiad.

## Gosod yr asesiadau

CBAC sy'n gosod pob asesiad.

Bydd asesiadau Uned 3, 6 a 9 yn aros yr un fath drwy gydol oes y fanyleb hon. Mae Pecynnau Asesu i'w cael ar wefan ddiogel CBAC i'w lawrlwytho gan y canolfannau.

Mae asesiadau Unedau 1, 4, 5 ac 8 yn cynnwys ysgogiadau a fydd yn newid bob blwyddyn. Mae Pecynnau Asesu i'w cael o wefan ddiogel CBAC o ddydd Llun cyntaf mis Medi bob blwyddyn.

## Gwneud yr asesiadau

Bydd yn ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal asesiadau mewnol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen y CGC: *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad*. Mae pum agwedd ar gyflawni asesiadau sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio a threfniadau ailsefyll.

## Amser

Ar gyfer unrhyw asesiad sydd i'w wneud dan amodau dan oruchwyliaeth, mae'r uchafswm amser y gall ymgeisydd ei dreulio ar bob asesiad wedi'i nodi ar dudalen glawr pob asesiad. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth. Lle y bydd asesiad yn cynnwys mwy nag un dasg, bydd yr asesiad hefyd yn nodi'n *fras* faint o amser y dylai ymgeisydd ei dreulio ar bob tasg. Cynigir yr amseroedd hyn i'r ymgeiswyr fel arweiniad. Rhaid i ganolfannau sicrhau y neilltuir y cyfnod amser llawn i ymgeiswyr gwblhau'r asesiad cyffredinol.

Yn achos unrhyw asesiadau lle nad oes gofyn goruchwylio ymgeiswyr yn uniongyrchol, bydd taflen glawr yr asesiad yn cynnwys faint o amser ar gyfartaledd y dylai ymgeisydd ei dreulio ar yr asesiad. Lle y bydd asesiad yn cynnwys mwy nag un dasg, bydd yr asesiad hefyd yn nodi'n fras faint o amser y dylai ymgeisydd ei dreulio ar bob tasg.

## Adnoddau

Gan ddibynnu ar y dasg, mae'n bosibl y caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys nodiadau dosbarth, y rhyngrwyd a gwaith ymchwil annibynnol a wnaed cyn dechrau'r asesiad.

Rhaid cydnabod unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir mewn tasgau asesu, er enghraifft, mewn tystiolaeth ysgrifenedig gellir gwneud hyn drwy ddarparu llyfryddiaeth ar ffurf atodiad gan ddefnyddio system gyfeirnodi gonfensiynol o fewn y testun, neu ar ffurf troednodiadau.

Lle y caniateir i ymgeiswyr fynd â nodiadau i'r amgylchedd asesu bydd yr asesiad yn nodi'r paramedrau ar gyfer y nodiadau. Ym mhob achos, **ni** ddylai'r nodiadau gynnwys atebion wedi'u paratoi ymlaen llaw ar gyfer y tasgau.

Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddir gan ymgeiswyr a'u cyflwyno i gael eu hadolygu fel rhan o'r broses gymedroli.

Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae dysgwyr yn bwriadu mynd â nhw i'r amgylchedd asesu gan sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion uchod.

Os oes gan athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau dylent atal yr asesiad rhag digwydd a dilyn unrhyw weithdrefnau mewnol sydd ar waith i ymdrin ag achosion lle mae amheuaeth o gamymddwyn.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC *Camymddwyn – canllaw i ganolfannau* a chanllawiau'r CGC *Amau Camymddwyn mewn arholiadau ac asesiadau – polisïau a gweithdrefnau* os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

### Cydweithio

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw asesiadau di-arholiad.

### Cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr

Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr asesiadau di-arholiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

Lle mae gan ymgeiswyr ddewis o ran ffocws eu hasesiad, dylai athrawon gefnogi eu dysgwyr wrth iddyn nhw ddewis eu cyd-destun er mwyn sicrhau bod cyfle gan yr ymgeiswyr i gyrraedd bandiau marciau uchaf y meini prawf marcio.

Pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo, rhaid i'r adborth gael ei gyfyngu i gyngor cyffredinol ar yr hyn y mae angen ei wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

Mae cyngor cyffredinol yng nghyd-destun cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn cynnwys:
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg berthnasol, gan gynnwys y deilliant gofynnol a'r amser sydd ar gael
- sicrhau bod gan ddewis a chwmpas cyd-destun ymgeiswyr (lle bo'n briodol) y potensial i fodloni gofynion y meini prawf marcio a'u bod yn ddigon heriol i gyflawni marciau o'r bandiau uchaf
- rhoi arweiniad ar ddefnyddio offer a defnyddiau yn ddiogel, a'r caledwedd a'r feddalwedd TGCh sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau asesu

Yng nghyd-destun 'cyngor cyffredinol', ni ddylai athrawon wneud y canlynol:
- rhoi cyngor manwl i ymgeisydd na chymryd yr awenau drwy'r broses asesu
- pennu cyd-destun ar gyfer yr asesiad, a ddylai bob amser fod yn benderfyniad yr ymgeisydd ei hun
- cywiro nac addasu gwaith ymgeisydd
- rhoi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn iddo ennill marciau uwch
- llunio unrhyw fath o ffrâm ysgrifennu i'w defnyddio mewn gweithgareddau asesu.

## Goruchwylio a monitro'r broses asesu

Bydd y tablau ar dudalennau 75-78, a'r pecynnau asesu yn nodi pa bryd mae'n rhaid cwblhau'r asesiadau dan oruchwyliaeth uniongyrchol. Lle mae'n bosibl cwblhau asesiadau heb oruchwyliaeth, rhaid i athrawon fonitro gweithgareddau asesu er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain yw'r gwaith a lliniaru'r risg y ceir unrhyw achosion o gamymdwyn.

Dylai athrawon fod yn ddigon ymwybodol o safon yr ymgeisydd a lefel ei waith i allu nodi a yw’r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ymddangos y tu hwnt i allu’r ymgeisydd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, disgwylir y bydd athrawon yn gyfarwydd â gwaith eu hymgeiswyr drwy aseiniadau gwaith dosbarth a gwaith cartref.

Lle nad dyna'r achos, dylai athrawon ystyried ffyrdd eraill o fonitro gwaith ymgeiswyr, er enghraifft:
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau rhan o'r gwaith neu'r gwaith i gyd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol
- cynnal Viva i ddilysu gwaith
- defnyddio cyfarfodydd goruchwylio (gweler isod) er mwyn cael sicrwydd bod y gwaith yn ddilys.

## Dilysu

Yr athro sy'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer y cymwysterau hyn.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy wneud y canlynol:

- cadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw’r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad y dysgwyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan ar ôl i’r dystiolaeth (h.y. yr adroddiad a’r dystiolaeth ategol) gael ei chyflwyno
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i’r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

## Diogelwch gwaith ymgeiswyr

Yn achos unrhyw asesiadau sy'n cael eu cwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser a rhaid ei gadw'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Ar ôl cwblhau'r asesiad a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith. Yn achos unrhyw asesiadau sy'n cael eu cwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol, dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar bob asesiad di-arholiad fel cofnod. Mae'n bosibl bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r cofnod gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio'r nifer cywir o oriau penodol ar bob asesiad.

Rhaid cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r marcio, apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf. Rhaid gallu darparu'r dystiolaeth i CBAC os gwneir cais amdani.

| Uned 1 Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Crynodeb o'r dasg a'r dystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio adroddiad ysgrifenedig (uchafswm o 3,500 o eiriau) yn seiliedig ar astudiaeth achos benodol.<br><br>Bydd ymgeiswyr yn dewis yr astudiaeth achos o ddewis o ddwy astudiaeth ond ni ddylent gael gweld yr astudiaeth achos tan ddechrau'r asesiad. | **Amser:** Tua 14 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth. **Ni** all ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |
| 2 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio pecyn gwybodaeth (uchafswm o 1,500 o eiriau) yn seiliedig ar y lleoliad y cyfeirir ato yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd ganddynt. | **Amser:** Tua 6 awr<br>**Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.<br>**Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth gwblhau'r dasg hon.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio podlediad, cyflwyniad neu fideo sy'n ddim mwy na 10 munud o hyd. | **Amser:** Tua 20 awr<br>**Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.<br>**Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth iddynt gwblhau'r dasg hon.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr ysgrifennu erthygl ac i lunio ffeithlun (uchafswm o 3,000 o eiriau gan gynnwys y ffeithlun)<br><br>Ni ddylai'r symbyliadau fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad. | **Amser:** Tua 15 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth. **Gall** ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 5: Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio nodiadau achos ar ffurf cyflwyniad. | **Amser:** Tua 10 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |
| 2 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio gwybodaeth i gyfrannu at gynllun gofal a chymorth personol. | **Amser:** Tua 5 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth. Gall ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio ymchwiliad (uchafswm o 5,000 o eiriau) | **Amser:** Tua 18 awr<br>**Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.<br>Bydd ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth yn y cofnod ymgysylltu â'r sector a'r dyddiadur myfyriol a gynhyrchwyd yn ystod eu cyfnod ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith.<br>**Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth gwblhau'r dasg hon.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 8: Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio adroddiad | **Amser:** Tua 10 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |
| 2 | Gofynnir i ymgeiswyr lunio llyfryn gwybodaeth | **Amser:** Tua 5 awr<br>**Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a 6 ochr (3 tudalen) o nodiadau dosbarth.<br>**Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

| Uned 9: Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | | |
|---|---|---|
| **Tasg** | **Tystiolaeth i'w chyflwyno** | **Rheolaethau i'w cymhwyso** |
| 1 a 2 | Mae gofyn i ymgeiswyr gynllunio a chyflawni ymchwiliad (tua 5,000 o eiriau) | **Amser:** Tua 20 awr<br>**Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.<br><br>**Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth gwblhau'r dasg hon.<br>**Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp.<br>**Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio. |

## Marcio'r asesiadau

Rhaid asesu'r asesiadau di-arholiad yn fewnol a'u marcio yn ôl y cynllun marcio fydd wedi'i ddarparu gyda'r asesiadau.

Cymedrolir pob asesiad yn allanol gan CBAC. Bydd proses gymedroli allanol ar gael yn ystod cyfres yr haf yn unig.

## Gridiau asesu ac anodiadau athrawon

Wrth asesu'r dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer pob asesiad, dylai athrawon astudio bandiau a gridiau marciau'r asesiad di-arholiad, sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau, ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol.

Mae'n ofynnol i athrawon gofnodi marciau ar wahân ar gyfer pob adran yn y lleoedd gwag ar y daflen farciau, gan nodi cyfanswm y marciau yn y blwch a gwneud sylw crynodol cyffredinol.

Er nad ydynt yn orfodol, mae anodiadau gan athrawon yng nghorff y dystiolaeth ysgrifenedig yn ddefnyddiol iawn er mwyn dangos ble a pham y rhoddwyd y marciau.

Bydd enghreifftiau o asesiadau di-arholiad yn cael eu cyhoeddi gan CBAC er mwyn helpu canolfannau i adnabod safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir y deunyddiau hyn at ddefnydd aseswyr mewnol asesiadau di-arholiad yn unig ac ni chaniateir eu rhannu ag ymgeiswyr.

## Safoni a chymedroli mewnol

Pan fo mwy nag un athro mewn canolfan, rhaid i waith gan bob grŵp addysgu gael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu yn y ganolfan.

Er mwyn i'r broses gymedroli fynd rhagddi ac i'r safoni mewnol fod yn deg, bydd CBAC yn neilltuo cymedrolwr allanol i bob canolfan. Mae'n hanfodol fod y cymedrolwr yn deall natur y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r ffordd y defnyddiwyd y meini prawf i wneud asesiad terfynol. Felly, mae'r manylion sydd eu hangen ar y tudalennau clawr marciau a'r anodiadau a wneir yng nghorff y testun yn bwysig iawn.

## Cyflwyno marciau a gwaith cymedroli allanol

Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau gwaith Asesiadau Di-arholiad ar-lein gan ddefnyddio System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol CBAC (IAMIS).

Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system ar-lein yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddethol i'w gymedroli:

- rhaid uwchlwytho samplau i lwyfan e-asesu CBAC
- dim ond y dystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei chyflwyno. Rhaid cadw gwaith yr holl ymgeiswyr eraill yn y ganolfan.
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr.

**D.S. Rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi'r daflen glawr.**

## Adborth y ganolfan

Canlyniad y gwaith cymedroli allanol fydd naill ai derbyn neu newid penderfyniadau asesu canolfan. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl o'r broses gymedroli ar ffurf adroddiad electronig.

Rhaid i ganolfannau gadw tystiolaeth pob ymgeisydd tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r gwaith cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r gwaith cymedroli neu apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf. Rhaid gallu darparu'r dystiolaeth i CBAC os gwneir cais amdani.

Dylid cyfeirio at y llawlyfr gweinyddu am ragor o wybodaeth am gyflwyno marciau a samplau o waith ymgeiswyr, ac am y broses gymedroli allanol.

## Trefniadau ailsefyll

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob **uned wedi'i hasesu'n fewnol** un waith yn unig gyda'r marc uchaf a enillir am yr uned i'w agregu tuag at radd y cymhwyster.

Ni all ymgeiswyr sy'n ailsefyll uned ailgyflwyno tystiolaeth i'w hasesu sydd eisoes wedi'i chyflwyno. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll uned, bydd yn rhaid iddo ymgymryd ag asesiad newydd yn seiliedig ar yr ysgogiadau a ryddheir ar gyfer y gyfres y bydd yr ymgeisydd yn ailsefyll ynddi. Dylid cwblhau unrhyw ailsefyll dan yr un lefelau o reolaeth â'r hyn a nodir ar gyfer yr asesiad.

Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll Uned 6, gall ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel y sail ar gyfer ailsefyll Tasg 2.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod '0' marciau wedi'u dyfarnu i ymgeisydd yna tybir
nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau;
bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

© WJEC CBAC Ltd.

# Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

## Graddau'r Uned

Caiff graddau'r uned eu nodi fel llythyren fach a i e ar slipiau canlyniadau, ond nid ar dystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) fel ffordd o adrodd, cofnodi a phennu deilliannau asesu unedau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y byddant yn cwblhau'r asesiad. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad cyffredinol ar gyfer y cymhwyster yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster Lefel 3.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| Uned | | Asesu | Cyfan swm GMU | Ffiniau graddau GMU | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | A | B | C | D | E |
| 1 | Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 2 | Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolyn ar bob cam o'r rhychwant oes | Allanol | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 3 | Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 4 | Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 5 | Cefnogi unigolion sy'n wynebu risg i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael | Mewnol | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 6 | Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 7 | Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | Allanol | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| 8 | Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| 9 | Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | Mewnol | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

© WJEC CBAC Ltd.

# Graddio'r cymwysterau

Bydd graddau cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Caiff y cymhwyster Lefel 3 **Tystysgrif** mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A* - E.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:-

| Gradd | Uchaf | A* | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 |

Caiff y cymhwyster Lefel 3 **Diploma Sylfaen** mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A* - E.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:-

| Gradd | Uchaf | A* | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 600 | 540 | 480 | 420 | 360 | 300 | 240 |

Caiff y cymhwyster Lefel 3 **Diploma** mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A*A* - EE.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:-

| Gradd | Uchaf | A*A* | A*A | AA | AB | BB | BC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 800 | 720 | 680 | 640 | 600 | 560 | 520 |

| Gradd | CC | CD | DD | DE | EE |
|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 480 | 440 | 400 | 360 | 320 |

Caiff y cymhwyster Lefel 3 **Diploma Estynedig** mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A*A*A* - EEE.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau cymhwyster fel a ganlyn:-

| Gradd | Uchaf | A*A*A* | A*A*A | A*AA | AAA | AAB |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 1200 | 1080 | 1040 | 1000 | 960 | 920 |

| Gradd | ABB | BBB | BBC | BCC | CCC | CCD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 880 | 840 | 800 | 760 | 720 | 680 |

| Gradd | CDD | DDD | DDE | DEE | EEE |
|---|---|---|---|---|---|
| GMU | 640 | 600 | 560 | 520 | 480 |

© WJEC CBAC Ltd.

# Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiol wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Ceir gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau ar wefan y Consortiwm.

# Ailsefyll

Gall ymgeiswyr ailsefyll **pob uned wedi'i hasesu'n fewnol** un waith yn unig gyda'r marc uchaf a enillir am yr uned i'w agregu tuag at radd y cymhwyster.

Ni all ymgeiswyr sy'n ailsefyll uned ailgyflwyno tystiolaeth i'w hasesu sydd eisoes wedi'i chyflwyno. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll uned, bydd yn rhaid iddo ymgymryd ag asesiad newydd yn seiliedig ar yr ysgogiadau a ryddheir ar gyfer y gyfres y bydd yr ymgeisydd yn ailsefyll ynddi. Dylid cwblhau unrhyw ailsefyll dan yr un lefelau o reolaeth â'r hyn a nodir ar gyfer yr asesiad.

Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll Uned 6, gall ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel y sail ar gyfer ailsefyll Tasg 2.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob **uned wedi'i hasesu'n allanol** ddwywaith yn unig, gyda'r marc uchaf a enillir am yr uned i'w agregu tuag at radd y cymhwyster.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod '0' marciau wedi'u dyfarnu i ymgeisydd yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

## Dechrau o'r newydd

Os bydd ymgeisydd am gofrestru am un neu fwy o unedau mewnol am y trydydd tro, neu uned allanol am y pedwerydd tro, yna rhaid i'r ymgeisydd ailddechrau'r cymhwyster a chwblhau'r holl asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwnnw. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Wrth ailwneud y cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd gael dau ymgais ar bob asesiad mewnol a hyd at tri ymgais ar bob asesiad allanol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o asesiadau a gwblhawyd cyn dechrau o'r newydd wrth bennu'r radd (graddau) newydd.

© WJEC CBAC Ltd.

# Atodiad A: Geiriau Gorchymyn

| Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau; Asesiadau Allanol | | |
|---|---|---|
| **AA** | **Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| **AA1** | Diffiniwch | Rhoi union ystyr |
| | Disgrifiwch | Rhoi nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad cryno |
| | Rhowch | Darparu/enwi/dethol/adnabod ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell sydd wedi'i rhoi neu o'r cof) |
| | Nodwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Rhestrwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Enwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Amlinellwch | Amlinellu'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad cryno neu brif nodweddion |
| | Nodwch *(State)* | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl |
| | Crynhowch | Dewis a chyflwyno'r prif bwyntiau (heb fanylion) |
| **AA** | **Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| **AA2** | Cymhwyswch | Defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol |
| | Cyfrifwch | Datrys gan ddefnyddio ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth sydd wedi'u rhoi |
| | Lluniwch | Creu fframwaith neu ddadl |
| | Esboniwch | Rhoi manylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae |
| | Eglurwch (*Clarify)* | Fel yn achos 'esboniwch' |
| | Eglurwch *(illustrate)* | Defnyddio diagram neu eiriau i ddangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| | Dehonglwch | Trosi gwybodaeth a roddwyd i ffurf arall |
| | Dangoswch | Fel yn achos 'eglurwch' |
| | Defnyddiwch | Cymhwyso'r wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol |
| **AA** | **Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| **AA3** | Cynghorwch | Awgrymu cynnig neu ffordd o weithredu yn seiliedig ar resymau wedi'u cefnogi |
| | Dadansoddwch | Archwilio mater yn fanwl/sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esbonio a dehongli |
| | Aseswch | Llunio barn ar sail gwybodaeth |
| | Cymharwch | Nodi tebygrwydd a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Ystyriwch | Cymryd (rhywbeth) i ystyriaeth wrth lunio barn neu ddod i gasgliad |
| | Cyferbynnwch | Nodi gwahaniaethau a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Trafodwch | Archwilio mater yn fanwl mewn modd strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau |
| | Gwahaniaethwch | Nodi ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng syniadau neu bynciau |
| | Gwerthuswch | Llunio barn drwy bwyso a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad |
| | Archwiliwch | Ymchwilio yn agos ac yn fanwl |
| | Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth/dadl i ategu achos |
| | Argymhellwch | Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth |

© WJEC CBAC Ltd.